# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | |
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 8 |
| 5 - Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | 12 |
| 8 - Matrics Cludiant Cyhoeddus | 20 |
| Atodiad 1 | 22 |
| 9 - Adroddiad Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor | 23 |
| Rhagair y Cadeirydd | 23 |
| Adroddiad | 24 |
| 10 - Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ol-16 | 53 |
| Atodiad 1 | 54 |
| 11 - Blaen Raglen y Pwyllgor | 56 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU – TROSEDD AC ANRHEFN**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE – CRIME AND DISORDER**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00am, DYDD MAWRTH, 4 MAWRTH, 2014**

**10.00am, TUESDAY, 4 MARCH, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 25-02-2014

**Aelodaeth/Membership (18)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen.

## RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2013, fel rhai cywir

(copi yma – papur **melyn**)

<u>Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod</u>

**10:15am RHAN 1**

**5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Diweddariad gan Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn

(copi yma – papur **pinc**)

**6. CYFLWYNIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU**

Cyflwyniad gan Mr Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru.

**7. CYFLWYNIAD PENNAETH CANOLFAN GYFATHREBIADAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Bydd Mr Alex Goss – Pennaeth Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol i roi cyflwyniad ar 'Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol'

**11:30am EGWYL**

**11:45am RHAN 2**

**8. MATRICS CLUDIANT CYHOEDDUS**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd W Gareth Roberts**

Ystyried adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio
(copi yma – papur **gwyrdd**)

**9. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU BALCHDER BANGOR**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd W Gareth Roberts**

Ystyried adroddiad y Grŵp Ymchwiliad Craffu,
(copi yma – papur **gwyn**)

**10. BRIFF YMCHWILIAD CRAFFU CLUDIANT OL-16**
**Aelod Cabinet: Cynghorydd Sian Gwenllian**

Ystyried briff Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
(copi yma – papur **lelog**)

**11. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013 - 2014**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith
(copi yma – papur **glas**).

# AGENDA

**1. WELCOME AND APOLOGIES**

To accept any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee, held on 10 December, 2013, be signed as a true record,

(copy herewith – **yellow** paper).

<u>Please note that the times listed below are estimates only</u>

**10:15am PART 1**

**5. ANNUAL COMMUNITY SAFETY PARTNERSHIP UPDATE**

Update by Delivery Manager Community Safety Gwynedd and Môn

(copy herewith – **pink** paper)

**6. PRESENTATION BY NORTH WALES POLICE COMMISIONER**

Presentation by Mr Winston Roddick, North Wales Police Commissioner

**7. PRESENTATION BY THE MANAGER OF THE NORTH WALES POLICE COMMUNICATIONS CENTRE**

Mr Alex Goss, T/Superintendent Force Control Centre, North Wales Police will be present to give a presentation on 'Operational Support Services'.

**11:30am BREAK**

**11:45am PART 2**

**8. PUBLIC TRANSPORT MATRIX**
**Cabinet Member: Councillor W Gareth Roberts**

Consider the Head of Regulatory Department report
(copy herewith – **green** paper)

**9. BANGOR PRIDE SCRUTINY INVESTIGATION REPORT**
**Cabinet Member: Councillor W Gareth Roberts**

Consider the Scrutiny Investigation Group Report
(copy herewith – **white** paper)

**10. POST 16 TRANSPORT SCRUTINY INVESTIGATION BRIEF**
**Cabinet Member: Councillor Sian Gwenllian**

Consider the Democratic Service Managers brief
(copy herewith – **lilac** paper)

**11. THE COMMITTEE'S FORWARD WORK PROGRAMME**

(copy herewith – **blue** paper)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 10/12/13

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:-, Annwen Hughes, Louise Hughes, Linda Morgan, Dilwyn Morgan, Tudor Owen, Gethin Glyn Williams, Eurig Wyn a Robert J. Wright

**SWYDDOGION:** Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd YN BRESENNOL:**
i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Simon Smith, (Prif Swyddog Tân), Dawn Docx, (Dirprwy Brif Swyddog Tân) a Meirick Lloyd Davies, (Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru).

(ii) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Y Gyfundrefn Parcio yng Ngwynedd), Y Cynghorydd W. Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd ac Aled Davies, (Pennaeth Rheoleiddio)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Mandy Williams-Davies a Gruffydd Williams.

**CROESO:** Estynnwyd croeso i gynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân a diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2013, fel rhai cywir.

## 3. GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

(a) Cyflwynwyd Simon Smith, (Prif Swyddog Tân) a Dawn Docx, (Dirprwy Brif Swyddog Tân) gan gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Meirick Lloyd Davies.

(b) Adroddodd y Prif Swyddog Tân ar waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r amcanion gwella ar gyfer 2014 -15.

(c) Gyda chopi ysgrifenedig a chyflwyniad 'power point', nododd fod 3 amcan gwella arfaethedig sef:-

- Helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol yn y cartref;
- Sicrhau fod gogledd Cymru yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf o fewn cyfyngiadau ariannol, defnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn gwneud y gorau i'r ddarpariaeth tân ac achub yn yr ardal;

- Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.

(ch) Pwysleisiodd fod y rhan helaethaf o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer atal tanau a bod hyn wedi bod yn effeithiol ers i'r drefn gael eu hastudio'n drylwyr.
Gosodwyd targed i gwblhau 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn flynyddol, a nodwyd na fyddai hyn yn bosib heb gydweithrediad partneriaid sydd â gwybodaeth am bobl sy'n agored i niwed.

(d) Nodwyd bod yr ymateb i lifogydd, a gafwyd yn yr ardal yn ddiweddar, yn enghraifft o lwyddiant y Gwasanaeth mewn perthynas â'r galwadau brys.

(dd) Ychwanegwyd bod arbedion effeithlonrwydd wedi eu gwneud a chroesawyd y newyddion bod cadarnhad wedi ei roi mewn cyfarfod o Awdurdod y Gwasanaeth Tân yr wythnos ddiwethaf y byddai'r gyllideb yn aros yn yr unfan am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

(e) Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r aelodau nodwyd:-

- Bod cynlluniau ar y gweill i wella safon gorsaf dân Tywyn, ond nad yw hyn yn creu bygythiad i'r orsaf yn Aberdyfi;
- Bydd yr orsaf dân yn Nhywyn yn cynnwys swyddfa ar gyfer yr heddwas lleol a bod datblygiadau o'r fath wedi profi'n llwyddiannus mewn mannau eraill;
- Nad yw'n bosib rhoi sicrwydd ynglŷn â dyfodol unrhyw orsaf dân yng ngogledd Cymru;
- Bod ymdrechion yn cael eu gwneud i osgoi sefyllfa pryd y byddai gorsaf, megis Pwllheli, yn cau gyda thrigolion ardaloedd gwledig heb wasanaeth o fewn cyrraedd rhesymol;
- Bod sefyllfaoedd posib, megis yr uchod, yn tanlinellu gwerth gweithio i atal tanau;
- Bod sefyllfa, pryd y byddai cymuned leol yn barod i dderbyn cyfrifoldeb am orsaf dân fyddai dan fygythiad, yn annhebygol iawn ar hyn o bryd. Pe byddai sefyllfa o'r fath yn codi byddai'n rhaid ystyried sawl mater megis hyfforddiant, pwy fyddai'r cyflogwr a phwy fyddai'n gyfrifol pe byddai cefnogaeth y gymuned yn dirwyn i ben.
- Bod rhaid dygymod â phob sefyllfa ond nid oedd enghraifft benodol yn yr ardal pryd yr achoswyd trafferthion oherwydd problemau trafnidiaeth;
- Nid yw gweithwyr sydd ar streic yn derbyn cyflog, a gellid ystyried hyn fel lleihad mewn gwariant;
- Bod newidiadau o ran taliadau pensiwn dynion tân wrth gefn yn creu costau pellach;
- Bod y Gwasanaeth wedi dygymod yn dda hefo'r streics hyd yma, ond byddai penderfyniad i ymestyn y cyfnodau yn destun pryder;

(f) Diolchwyd i'r swyddogion am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ac am fynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r wybodaeth.
Mewn ymateb, diolchodd Meirick Lloyd Davies am y cyfle i fod yn bresennol. Tanlinellodd werth cydweithio a thynnodd sylw pellach at y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag atal tanau.

## 4. Y GYFUNDREFN PARCIO YNG NGWYNEDD

(a) Croesawyd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Rheoleiddio i'r cyfarfod.

(b) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau ymlaen llaw.

(c) Eglurodd ei fod wedi gofyn i'r Adran Rheoleiddio ymgymryd ag adolygiad yn ymwneud â pharcio a bod disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau o fewn ychydig wythnosau.

(ch) Nododd fod y mater yn ymestyn yn llawer ehangach na ffioedd parcio a'r incwm sy'n deillio ohono.
Er nad oes cynlluniau penodol dan ystyriaeth hyd yma, nododd y gallai ffioedd parcio gael eu amrywio er annog rhai i wneud mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus. Yn ogystal, gellid defnyddio'r incwm sy'n deillio o ffioedd parcio i gefnogi gwasanaethau eraill neu flaenoriaethu gweithredu lleol. Gall yr opsiwn dewisol adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor.

(d) Galwodd yr Aelod Cabinet ar i'r aelodau gyflwyno barn parthed y matrics Cludiant Cyhoeddus.

(dd) Ychwanegodd fod yr arolwg wedi amlygu'r ffaith fod pobl yn barod i dalu pris sy'n adlewyrchu gwerth yr adnodd gwasanaeth a geir. Mae cyfleuster siopau canolog Bangor a thraethau ar gyfer ymwelwyr yn enghreifftiau o hyn. Oherwydd hyn, gellid rhoi ystyriaeth i amrywio ffioedd mewn gwahanol rannau o'r Sir a bod cyfiawnhad digonol i wneud hyn

(e) Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd yr Aelod Cabinet bod yr Adran Rheoleiddio wedi edrych ar ffioedd parcio yn flynyddol ac wedi penderfynu peidio codi'r ffioedd. Un o'r rhesymau am hyn oedd bod y ffioedd a sefydlwyd yng Ngwynedd yn 2007 wedi bod yn gymharol uwch nag awdurdodau eraill. Fodd bynnag, 'roedd peidio codi ffioedd yn gadael bwlch ariannol sy'n cynyddu'n flynyddol.

Ddwy flynedd yn ôl cytunwyd y dylid ymgymryd ag adolygiad o'r ddarpararariaeth parcio oddi ar y stryd, ac yr oedd hwn yn rhan o'r adolygiad ehangach a gomisiynwyd gan yr Aelod Cabinet.

(e) Ymatebodd yr Aelod Cabinet: a'r Pennaeth Rheoleiddio'n briodol i ymholiadau'r aelodau gan wneud y prif bwyntiau canlynol:-

- Ei bod yn anodd sicrhau cydbwysedd rhwng gosod ffioedd derbyniol ac osgoi sefyllfa pryd y byddai modurwyr yn parcio tu allan i dai trigolion lleol;
- Bod nifer y tocynnau parcio blynyddol a werthwyd eleni yn dangos gostyngiad, ond bod cynnydd yn yr incwm yn sgil ymweliadau â meysydd parcio'r traethau oherwydd y tywydd ffafriol;
- Bod y wardeniaid traffig yn gwneud gwaith canmoladwy iawn sy'n cael ei werthfawrogi gan gymunedau'r Sir;
- Bod ffioedd arhosiad byr yn cael eu gosod yng nghanol trefi er mwyn sicrhau trosiant i'r siopwyr;
- Bod cydweithio mwy hefo cymunedau lleol yn opsiwn i'w ystyried;
- Y Cabinet fydd yn pennu'r ffioedd, ond mai bwriad yr adroddiad oedd creu cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu i gyflwyno barn ynglŷn â sut y dylid trefnu strwythur y gyfundrefn parcio;
- Bod ymchwil yn dangos mai'r ffactor bwysicaf o ran hyfywdra a phrysurdeb canol trefi yn yw'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y dref. Ffactor ymylol yw ffioedd parcio.
- Byddai trafferthion gweinyddol yn sicr o godi wrth geisio cyflwyno trefn o gael bathodynnau parcio i drigolion lleol;
- Bod tocynnau tymor ar gael am bris rhesymol iawn.

Nodwyd bod disgwyl i'r cynigion fod ar gael erbyn diwedd Ionawr, 2014, a bydd cyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr opsiynau terfynol.

**5. CYFARFOD ARBENNIG**

(a) Adroddodd Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd bod angen i'r Pwyllgor hwn graffu adroddiadau Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.
Oherwydd amserlen gaeth, nodwyd nad oedd cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'w gynnal yn y ffenestr angenrheidiol rhwng 18 Ionawr a 18 Chwefror, 2014.

(b) Yn yr un modd, adroddwyd bod angen rhoi ystyriaeth i'r Mesur Cynllunio (Cymru) drafft a Cynllunio Cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu hwn yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror, 2014, fel y gellir ystyried yr eitemau uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12:35pm

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSEDD AC ANHREFN AWDURDOD LLEOL GWYNEDD** |
| **DATE:** | **4YDD MAWRTH 2014** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CATHERINE E ROBERTS** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** |

## 1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Darparu trosolwg i'r Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd (PDC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn pob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei obligiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 drwy Reoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009.
**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau unigol.**

2.02 Mae'n ddyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006 i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub** i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r asiantaethau sy'n ffurfio'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â:

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a gynhelir ar sail ranbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

2.03 Mae partneriaethau wedi bodoli yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1999. I gefnogi'r gwaith, gwasanaethir y Bartneriaeth gan dîm craidd o swyddogion

awdurdod lleol a’r Heddlu. Mae capasiti’r timau cefnogol hyn, o fewn yr Awdurdodau Lleol ac o fewn yr Heddlu wedi gostwng, ac maent bellach yn gweithio ar sail dwy Sir.

3.00 **AILSTRWYTHURO’R BARTNERIAETH**

3.01 Ers 2012/13, mae Ynys Môn a Gwynedd wedi ymgymryd â phroses i resymoli partneriaethau. Y prif newid yw uno’r ddwy Sir yn un strwythur Partneriaeth. Unwyd y Byrddau Gwasanaeth Lleol (BGLl) yn Fwrdd dwy Sir yn ogystal, a hwn oedd y Bartneriaeth Diogelch Cymunedol (PDC) statudol. Fodd bynnag, ers hyn, gwyrdrowyd y penderfyniad hwnnw ac fe ailsefydlwyd y PDC fel grŵp statudol yn gorwedd odan y BGLl.

3.02 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da yn y modd y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gogledd Cymru yn gweithio gyda’i gilydd. Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2012 oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn rhanbarthol. Mae’r Bwrdd hwn yn cynrychioli partneriaeth rhwng yr holl awdurdodau statudol yn y rhanbarth (yn unol â diffiniad Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998), ynghyd â’r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu. Nod gyffredinol y Bwrdd yw cyflwyno gwell cysondeb i’r maes gwaith hwn, a chreu cyfleoedd i rannu arbenigedd a gweithio’n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran sefydlu statws a swyddogaeth y Bwrdd hwn, ac mae’r drafodaeth yn parhau o ran p’un a fydd yn datblygu ymhen amser i fod yn BDC statudol i’r rhanbarth.

3.03 Yn ogystal, mae’r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn drawsnewidiol i’r agenda Camddefnyddio Sylweddau. Ar ôl datblygu Byrddau Cynllunio Ardal (BCA) yng ngogledd Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, rydym nawr yn gweithio i drawsnewid y strwythurau presennol i weddu i’r hyn fydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Dyma’r prif newidiadau -

- Datblygu Bwrdd rhanbarthol, y bydd gofyn iddo weithredu swyddogaeth statudol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar lefel ranbarthol, mae’r BCA wedi’i sefydlu eisoes (gall hyn olygu na fydd angen timau SMAT (Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau) yn y dyfodol).
- Datblygu strategaeth comisiynu camddefnyddio sylweddau ranbarthol, mae’r gwaith hwn ar y gweill.
- Trawsnewid y gronfa camddefnyddio sylweddau i grant rhanbarthol o fis Ebrill eleni, yn hytrach na grant Sirol. Mae grant Gogledd Cymru wedi cynyddu eleni yn dilyn newid i’r fformiwla ariannu.
- Gofyn i gael banciwr / llywyddwr i’r grant yn rhanbarthol. Awdurdod Lleol Wrecsam yw’r banciwr yng Ngogledd Cymru. Bydd yr awdurdod yn derbyn y grant o fis Ebrill flwyddyn nesaf ac yn dal yr holl gontractau gyda darparwyr y rhanbarth.
- Ad-drefnu’r adnoddau presennol (a ariennir gan y grant) sy’n cefnogi’r

strwythurau presennol, i alluogi cefnogi'r strwythurau rhanbarthol newydd. Nid oes cytundeb ar y strwythur newydd eto, fodd bynnag, derbynnir y bydd llai o gydlynwyr yn y dyfodol ac ni fyddant yn gweithio ar sail leol.

## 4.00 YSTYRIAETHAU

4.01 Mae'n amlwg fod gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae asiantaethau yn ymdrin â throsedd ac anrhefn. Roedd cyfraddau'r troseddau a gofnodir yn parhau i ostwng. Ceir isod grynodeb o rai o'r prif ddarganfyddiadau:

**Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag oedd yna bedair blynedd yn ôl?**

**Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ngwynedd nawr nag oedd yna bedair blynedd yn ôl**

Wrth gymharu'r naw mis rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr yn 2010/11 hyd 2013/13;

**Yn Ngwynedd, cofnodwyd 756 yn llai o droseddau, gostyngiad o 14%.**

Yn y naw mis diwethaf, mae'r hyn a ganlyn wedi cyfrannu at hyn:

- 49 yn llai o droseddau treisgar gydag anaf, gostyngiad o 9%.
- 19 yn llai o fyrgleriaeth nad ydynt yn ddomestig, gostyngiad o 6%.
- 355 yn llai o ddigwyddiadau o ddifrod troseddol a chynnau tân yn fwriadol, gostyngiad o 30%.
- 178 yn llai o ddigwyddiadau o anrhefn cyhoeddus, gostyngiad o 42%.
- 53 yn llai o ddigwyddiadau trosedd cerbyd, gostyngiad o 17%

4.02 Mae Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bellach yn gynllun rhanbarthol, mae cynllun cyntaf gogledd Cymru ar ffurf drafft ar hyn o bryd – ceir amlinelliad o'r meysydd blaenoriaeth yn y tabl isod.

4.03 Blaenoriaethau Asesiad Strategol Gogledd Cymru -

- Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol
- Byrgleriaeth o Dŷ
- Cam-drin Domestig
- Trais sy'n gysylltiedig ag alcohol – gydag anafiadau
- Grwpiau trosedd wedi'i drefnu yn achosi'r niwed mwyaf

Cytunwyd bod y rhain a ganlyn hefyd yn arwyddocaol ac angen sylw -

- Dwyn o siopau

- Dwyn o gerbydau modur

4.05 Meysydd blaenoriaeth cynllun gogledd Cymru -

| **Blaenoriaeth** | **Deilliannau** | **Dangosyddion Perfformiad** |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig a Throsedd Rhywiol | Pobl yn fwy hyderus, ac yn fwy ymwybodol, i adrodd am gam-drin domestig ac am droseddau rhywiol.<br><br>Pobl ifanc yn ymwybodol o natur a goblygiadau troseddau rhywiol, a lle i fynd i gael cymorth.<br><br>Ymdrin yn effeithiol y tro cyntaf gydag achosion risg uchel o gam-drin domestig drwy ymyrraeth lwyddiannus gan MARAC. | Nifer y digwyddiadau trais domestig a gaiff eu hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Nifer y troseddau rhywiol a gaiff eu hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Pobl ifanc â gwybodaeth dda am drais rhywiol (wedi'u monitro drwy arolygon ôl-ymyraeth).<br><br>Nifer yr achosion a gaiff eu cyfeirio fwy nag unwaith i MARAC |
| Troseddau meddiangar | Adnabod patrymau newydd yn lleol o ran trosedd gaffaelgar a datblygu ymatebion priodol wedi'u targedu at partrymau hynny.<br><br>Ymateb ar y cyd i'r rhai hynny sy'n peri'r niwed mwyaf yn ein cymunedau. | Nifer y troseddau caffaelgar a gaiff eu hadrodd.<br><br>Nifer y troseddau a beri gan aildroseddwyr |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Cefnogi dioddefwyr risg uchel a phobl sy'n ddioddefwyr dro ar ôl tro.<br><br>Darparu ymyraethau priodol i broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gaiff eu hadnabod yn lleol yn ein cymunedau. | Nifer y bobl risg uchel sy'n dioddef dro ar ôl tro<br><br>Nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gaiff eu hadrodd. |
| Camddefnyddio Sylweddau | Gwella argaeledd ac ansawdd addysg, ataliad a gwasanaethau triniaeth a | Cyflawni Dangosyddion |

| | | |
|---|---|---|
| | chymorth perthnasol, gan roi mwy o flaenoriaeth ar y berthynas rhwng alcohol, cyffuriau a throsedd. | Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau. |

5.00 **GWEITHGAREDDAU 2013/14**

Yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn destun ailstrwythuro sylweddol iawn, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r holl arian grant a dderbynnir gan y PDC wedi cael eu newid. Mae'r adnoddau cefnogol wedi'u cwtogi ac mae rhai prosesau ailstrwythuro rhanbarthol heb eu gorffen. Fodd bynnag, mae'r PDC wedi ymrwymo i ymgymryd â'r gweithgarwch mwyaf effeithiol a hylaw i gyflawni ei ymrwymiadau statudol. Ceir isod restr o'r prif weithgareddau.

5.01 Gweithgareddau a Chynnydd Rhanbarthol

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu, mae rheolwyr PDC, Aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd, ac maent wedi cytuno ar yr hyn a ganlyn -

i. Cymeradwyo Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Gogledd Cymru ar gyfer 2013.
ii. Cytuno a chymeradwyo llunio Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol, fersiwn drafft wedi'i amgáu.
iii. Trosolwg strategol o'r Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.
iv. Ymateb cydlynol i Gynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru – sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
v. Cysondeb yr agwedd tuag at grantiau a gaiff eu comisiynu'n rhanbarthol, sef y Gronfa Atal Troseddu Pobl Ifanc a Chronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau – mae'r ddau ohonynt bellach yn grantiau rhanbarthol.
vi. Aelodaeth a chyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy'n galluogi'r berthynas ofynnol rhwng PDC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
vii. Argymell Fframwaith Comisiynu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.02 Gweithgareddau a Chynnydd Lleol

Ar sail leol, dyma rai o'r prif gerrig milltir:

i. Wedi ailstrwythuro strwythurau cefnogol y PDC, gan newid i strwythur dwy Sir.
ii. Arwain ar ddatblygu Cynllun Diogelwch Cymunedol a chynllun gweithredu lleol.
iii. Adolygu holl is-grwpiau blaenorol y PDC er mwyn asesu a yw ein hadnoddau llai yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.
iv. Cydlynu'r ymateb rhanbarthol i'r Cynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – sy'n ymwneud â datblygiadau cam-drin domestig.
v. Ennill cymeradwyaeth ffurfiol i ariannu'r grantiau a ganlyn: Arian Cronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig a'r Gronfa cronfa atal troseddu ienctid ar gyfer 2013/14 a pharatoi ar gyfer y strwythur grantiau rhanbarthol newydd.
vi. Gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Diogelu Plant, i lansio'r arweiniad ymarferol a hefyd o ran yr Adolygiad Lladdiad Domestig yng Ngwynedd (y cyntaf yng Nghymru).
vii. Sefydlu grŵp dwy Sir i sicrhau cynnydd yn swyddogaeth y Cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig.
viii. Parhau i gyflenwi hyfforddiant i grwpiau aml-asiantaethol a defnyddio teclyn CAADA (achrediad cenedlaethol), '*Domestic Abuse Stalking and Harassment Risk Assessment'* i Gam-drin Domestig.
ix. Comisiynu cynlluniau 'adfer' penodol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Ynys Môn a Gwynedd (ar y blaen o ran datblygiadau o'r fath yng ngogledd Cymru).
x. Cefnogi grŵp cefnogi defnyddwyr camddefnyddio sylweddau lleol yn Ynys Môn a Gwynedd (AGRO).
xi. Cyfrannu i gynllun dwy Sir newydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
xii. Ymgyrch codi ymwybyddiaeth i dargedu pobl hŷn sy'n camddefnyddio alcohol yn Ynys Môn a Gwynedd.
xiii. Cymryd rhan yn adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig Cymru.
xiv. Ymgymryd ag adolygiad Lladdiad Domestig (ddim wedi'i gwblhau eto) wedi i hyn ddod yn gyfrifoldeb i'r PDC yn 2011 (y cyntaf yng Nghymru).
xv. Symud i ddull gweithio 'rheoli systemau proses' wrth fonitro meysydd blaenoriaeth i Bartneriaethau weithredu mewn modd strategol.
xvi. Wedi rhoi polisi cam-drin domestig ar waith yn y gweithle yn Awdurdod Lleol Gwynedd.
xvii. Wedi adolygu'r cynlluniau a ariennir gan Gronfa Comisiynydd yr Heddlu (cyn eleni, roeddem yn derbyn yr arian gan y Swyddfa Gartref), sydd wedi gostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn.

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.03 Prif Gerrig Milltir yn y Flwyddyn i Ddod

i. Cwblhau'r adolygiad o is-grwpiau, er mwyn i'r PDC fod mor effeithiol a grymus â phosib i'r dyfodol.
ii. Parhau â'r gefnogaeth a'r mewnbwn i waith Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru, ac ymateb yn effeithiol i'r newidiadau sydd o bosib eto i ddod o ran strwythurau'r Bartneriaeth.
iii. Parhau â'r gefnogaeth a'r mewnbwn i Gynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru.
iv. Gweithio'n effeithiol o fewn y strwythurau rhanbarthol newydd, i ddiogelu angen lleol pan fo angen ac i adnabod cyfleoedd ar sail ranbarthol pan fo hynny'n briodol.
v. Hwyluso'r adolygiad tair blynedd nesaf (a gychwynodd ym mis Rhagfyr) o strwythurau'r MARAC (Cynhadledd asesu risg aml-asiantaethol, i ddioddefwyr) cam-drin domestig lleol yn y ddwy Sir ac ymateb iddo.
vi. Gweithredu'r rhaglen waith ranbarthol i gynlluniau 10,000 o Fywydau Mwy Diogel.
vii. Gweithio gyda'r broses o ailstrwythuro'r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau ein bod yn medru diwallu anghenion yn rhanbarthol ac yn lleol o fewn y strwythur cefnogi newydd, gan reoli'r newidiadau i swyddi presennol yn effeithiol.
viii. Adolygu'r cysylltiadau gyda'r gwasanaethau Trwyddedu a Safonau Masnach i sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle ar gyfer prawf prynu ac ati.
ix. Ymateb i ddeilliant adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru.
x. Gweithio gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i adolygu a gweithredu gwaith y Cydlynwyr Gwrthgymdeithasol, a gaiff ei ariannu gan gronfa'r Comisiynydd.
xi. Cyfrannu i gynllun Integredig y BGLl, a chyflwyno adroddiadau diweddaru yn ôl y gofyn.
xii. Datblygu cynllun gwariant rhanbarthol i'r Gronfa Atal Trosedd ienctid , sydd hefyd wedi datblygu'n gronfa ranbarthol, i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn lleol.
xiii. Cyfrannu at Grŵp Rheoli Troseddwyr yn Integredig Gogledd Cymru,

**6.00 ARGYMHELLION**

6.01 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 Mawrth 2014** |
| **TEITL** | **Matrics Cludiant Cyhoeddus** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W. Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | **I'r Pwyllgor gael ystyried priodoldeb y matrics cludiant cyhoeddus.** |

**Cefndir**

1. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Uned Cludiant Integredig y Cyngor wedi ymgymryd â rhaglen heriol o ail dendro holl wasanaethau Cludiant Cyhoeddus ac Addysg y Cyngor.

2. Er bod natur y maes yn golygu bod y sefyllfa contractau cludiant a osodir gan y Cyngor yn gorfod cael eu haddasu yn gyson, credir bod y Cyngor bellach mewn sefyllfa o gymryd gorolwg traws sirol o'r rhwydwaith cludiant sydd yn derbyn sybsidi gan y Cyngor er sefydlu os ceir gwerth am arian am y gwasanaethau a'u bod yn cyfarfod ac anghenion cludiant sylfaenol cymunedau y Sir.

3. Rhai blynyddoedd yn ôl datblygwyd matrics gan y Grŵp Tasg oedd yn gweithio ar ran y Pwyllgor Craffu Amgylchedd er ceisio sefydlu sail resymegol ar gyfer cymharu y gwasanaethau oedd yn derbyn cymhorthdal. Cafodd y matrics ei drafod a derbyn sêl bendith Pwyllgor yr Amgylchedd.

4. Er i'r matrics gael ei ddatblygu ni ddefnyddiwyd ef fel arf i ddylanwadu ar fuddsoddiad y Cyngor yn y gwasanaethau cludiant ac yn fuan wedyn symudwyd at y gwaith ail dendro. Penderfynwyd mai yr ail dendro oedd y flaenoriaeth ac y dylid gohirio y gwaith o asesu y rhwydwaith sirol hyd nes y byddai y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau.

5. Gyda'r ail dendro wedi ei gwblhau mae sicrhau gwerth am arian, yn enwedig yn y cyfnod ariannol heriol presennol yn flaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, gan fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r matrics gael ei ddatblygu credir ei bod yn briodol i'r Pwyllgor Craffu ail ymweld ag o i weld os yw yn briodol ar gyfer cynorthwyo'r broses. Er bod egwyddorion a strwythur

sylfaenol y matrics yn gadarn, ystyrir y gallai y Pwyllgor fod eisiau addasu agweddau ohono cyn iddo gael ei ddefnyddio yn enwedig o ran pwysau a roddir ar y ffactorau gwahanol.

6. Prif ffactorau'r matrics presennol yw:

   i. Cost fesul teithiwr;
   ii. Y llwybr/ardal a wasanaethir
   iii. Niferoedd teithwyr;
   iv. Dewisiadau teithio eraill;
   v. Math o wasanaeth - dydd/nos/penwythnos; a
   vi. Mynediad i wasanaethau.

   Efallai y bydd y Pwyllgor eisiau ystyried priodoldeb y ffactorau yma ynghyd â'r pwysau gwahanol a roir iddynt o fewn y matrics.

7. Amgaeir copi o'r matrics gyda'r adroddiad hwn. Bydd swyddogion yr Adran Rheoleiddio yn rhoi cyflwyniad ar y matrics ar ddechrau'r eitem yn y Pwyllgor ac yn amlinellu rhai o'r materion sydd angen ystyriaeth neu gadarnhad o'r priodoldeb gan y Pwyllgor.

8. Bydd unrhyw addasiadau i'r matrics a gynigir gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i sylw yr Aelod Cabinet a fydd yn penderfynu ar y matrics terfynol ac os yw am ei ddefnyddio fel arf i ddatblygu opsiynau ar gyfer siapio dyfodol y gwasanaethau cludiant a ddarparir yng Ngwynedd.

# Tabl Pwyslais

| 1 | | 2 | | 3 | | 4 | | 5 | | 6 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidol | | Ardal | | Nifer o Deithwyr | | Dewis Arall | | Math o Wasanaeth | | Cyfleusterau | |
| 1 | Proffidiol | 1 | Canolfan Rhanbarthol i Ganolfan Rhanbarthol | 1 | Mwy na 40 | 1 | dim | 1 | Llun i Gwe Amser Prysur | 1 | Canolfan Meddygol |
| 2 | i fyny i £1:00 | 2 | Canolfan Rhanbarthol i Ganolfan drefol | 2 | 30 i 40 | 2 | Diwrnodol | 2 | Llun i Gwe Amser Tawel yn Ystod y Dydd | 2 | Ysbyty |
| 3 | i fyny i £2:00 | 3 | Canolfan Rhanbarthol i Bentref | 3 | 20 i 30 | 3 | Y Dydd | 3 | Yn Ystod Dydd Sadwrn | 3 | Canolfan Hamdden |
| 4 | i fyny i £3.00 | 4 | Canolfan Trefol i Ganolfan Drefol | 4 | 10 i 20 | 4 | Dwywaith y Diwrnod | 4 | Gwasanaeth Nosweithiau Llun i Sad | 4 | Ysgol gynradd |
| 5 | i fyny i£4:00 | 5 | Canolfan Trefol i Bentref | 5 | 5 i 10 | 5 | Bob 2 Awr | 5 | Gwasanaeth Dydd Sul | 5 | Ysgol Uwchradd |
| 6 | i fyny i£10:00 | 6 | Pentref i Bentref | 6 | 2 i 5 | 6 | Bob Awr | | | 6 | Coleg |
| 7 | Dros £10:00 | | | 7 | Llai Na 2 | | | | | | |
| | | 1a | Taith Strategol | | | | | | | | |
| | | 2a | Ardal Ddifreintiedig | | | | | | | | |
| | | 3a | Llwybr Ymelwyr | | | | | | | | |

| | 1 | | | 2 | | | 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Safle | Cyllidol | Pwyslais | Sgôr | Ardal | Pwyslais | Sgôr | Nifer o Deithwyr | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | 1 | 100.00% | 30.00 | 1 | 60% | 9.00 | 1 | 100.00% | 15.00 |
| 2 | 2 | 75.00% | 22.50 | 2 | 55% | 8.25 | 2 | 75.00% | 11.25 |
| 3 | 3 | 50.00% | 15.00 | 3 | 50% | 7.50 | 3 | 55.00% | 8.25 |
| 4 | 4 | 25.00% | 7.50 | 4 | 50% | 7.50 | 4 | 40.00% | 6.00 |
| 5 | 5 | 13.00% | 3.90 | 5 | 45% | 6.75 | 5 | 25.00% | 3.75 |
| 6 | 6 | 5.00% | 1.50 | 6 | 40% | 6.00 | 6 | 15.00% | 2.25 |
| 7 | 7 | 0.00% | 0.00 | 1A | 10% | 1.5 | 7 | 10.00% | 1.5 |
| 8 | | | | 2A | 20% | 3 | | | 0 |
| 9 | | 268% | | 3A | 10% | 1.5 | | | |
| | | | 30 | | | 15 | | | 15 |

| 4 | | | 5 | | | 6 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewis Arall | Pwyslais | Sgôr | Math o Wasanaeth | Pwyslais | Sgôr | Cyfleusterau | Pwyslais | Sgôr |
| 1 | 100.00% | 15.00 | 1 | 30.00% | 4.50 | 1 | 20.00% | 2.00 |
| 2 | 50.00% | 7.50 | 2 | 20.00% | 3.00 | 2 | 30.00% | 3.00 |
| 3 | 40.00% | 6.00 | 3 | 20.00% | 3.00 | 3 | 5.00% | 0.50 |
| 4 | 30.00% | 4.50 | 4 | 15.00% | 2.25 | 4 | 10.00% | 1.00 |
| 5 | 20.00% | 3.00 | 5 | 15.00% | 2.25 | 5 | 10.00% | 1.00 |
| 6 | 10.00% | 1.50 | | | | 6 | 25.00% | 2.50 |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | 15 | | | 15 | | | 10 |

YMCHWILIAD CRAFFU BALCHDER BANGOR

Rhagair

Cychwynnodd y gwaith ar gynnal ymchwiliad craffu i gynllun prosiect Balchder Bangor gyda'r bwriad o asesu llwyddiannau'r cynllun o wella'r amgylchedd yn lleol ac i adnabod ymarfer da i'w rannu ar draws y Sir. Gwelwyd yn fuan bod llawer mwy i'r gwaith na'r amgylchedd yn unig. Daeth yn amlwg i ni wrth gyfweld â phobl a dysgu mwy am y cynllun bod yma negeseuon gwerthfawr o safbwynt yr elfen o weithio mewn partneriaeth a chydweithio.

Felly, mi welwch fod yr adroddiad yn cynnwys ystyriaeth fanwl o'r elfen yma. Yn ogystal, yn dilyn cyhoeddi *Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams ym mis Ionawr 2014, fe benderfynwyd rhoi sylw penodol i hyn yng nghyd-destun gweithio gyda chynghorau tref a chymuned. Mae'n rhy fuan i wybod beth fydd effaith yr adroddiad ar gydweithio, ond mae'r hinsawdd ariannol gyfredol yn debygol o orfodi cynghorau unedol fel *Gwynedd* i weithio mewn ffyrdd gwahanol.

Aed ati i gasglu amrywiaeth o dystiolaeth yn cynnwys cyfweliadau gydag unigolion, cyfarfod gyda Chyngor Ysgol ac Arolwg Stryd gyda'r cyhoedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd o Grŵp yr Ymchwiliad i ystyried y dystiolaeth ac i'w gloriannu a llunio'r adroddiad.

Mae yma negeseuon sydd angen eu cyfleu i holl Aelodau'r Cabinet o safbwynt gweithio trawsadrannol a chydweithio'n lleol. Mae cynnal ansawdd gwasanaethau a'u gwella i ddefnyddwyr yn greiddiol i waith Cyngor Gwynedd, ac rydym yn dymuno pwysleisio'r angen i gadw ffocws ar y defnyddiwr gwasanaeth yn lleol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rydym o'r farn bod cyfle cyffrous i wella gwasanaethau yn lleol hyd yn oed yn y cyfnod heriol presennol; ond yr unig ffordd y gallwn wneud hyn yw trwy gydweithio'n effeithiol. Bydd angen targedu'r adnoddau prin i'r mannau hynny sy'n dangos ewyllys clir yn lleol i gymryd cyfrifoldeb dros gynnal a gwella gwasanaethau.

O safbwynt cydweithio'n drawsadrannol, mae rhai enghreifftiau da o gydlynu a rhannu gwybodaeth ond mae yma hefyd dystiolaeth o ddiffygion o ran cadw'r ffocws ar y cwsmer ac ymgysylltu'n effeithiol. Rhan o'n gwaith fel craffwyr yw adnabod anghenion a phryderon dinasyddion Gwynedd a chyfleu negeseuon clir i'r Weithrediaeth. Mae'n hadroddiad yn nodi amryw faterion a chamau y gallai'r Cabinet eu cymryd er mwyn rhoi pobl yn y canol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac wrth gyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau.

Diolch yn fawr i'r cynghorwyr sydd wedi gweithio gyda mi ar yr Ymchwiliad yma gan wario oriau yn mynd dan wyneb y mater a chraffu'r maes yn drylwyr. Rydym yn diolch yn arbennig i'r rhai sydd wedi cyfrannu tystiolaeth a rhoi cefnogaeth barod i'r gwaith.

Cynghorydd Dilwyn Morgan

Cadeirydd yr Ymchwiliad

Chwefror 2014

# CRYNODEB

## A Nod yr Ymchwiliad

Roedd yr Ymchwiliad Craffu yn anelu i ateb y prif gwestiynau yma:

a) Beth oedd effaith y Cynllun ar bobl Bangor a Gwynedd?
b) A ydyw wedi gwella'r amgylchedd ym Mangor?
c) A ydyw'n gynaliadwy?

## B Y Dystiolaeth a ystyriwyd

### Crynodeb o'r Dystiolaeth a Ystyriwyd

Fe wnaeth y Grŵp Ymchwiliad Craffu a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried tystiolaeth gan y canlynol:

*Aelod Cabinet Amgylchedd, Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu a Rheolwr Gwasanaethau Stryd.*

*Y Cynghorwyr Mair Rowlands (cyn Cadeirydd Grŵp Prifysgol Balchder Bangor),Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Pen-swyddog Adfywio Cymunedol a Rheolwr Gwasanaethau Stryd.*

*Pennaeth, ac Athro Ysgol Friars a fu'n cydweithio gyda'r Fenter yn y gorffennol.*

*Cadeirydd presennol Grŵp Prifysgol Balchder Bangor.*

*Cynghorydd Ward Glyder, a chwaraeodd ran amlwg yng ngweithgareddau'r Fenter.*

*Clerc Cyngor Dinas Bangor.*

Bu i'r Swyddog Arweiniol a'r Swyddog Cefnogol i'r Ymchwiliad Craffu gyfweld y canlynol:

- *Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd Arfon, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
- *Swyddog Gorfodaeth Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
- *Swyddog Trefi Taclus Dros Do, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
- *Dau Swyddog gyda chyfrifoldeb dros y Gangiau Cymunedol, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
- *Arweinydd Tîm Glanhau Strydoedd Bangor/Bethesda, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*
- *Swyddog Prosiect, Adran Economi a Chymuned (cyn swyddog Cymunedau'n Gyntaf ar yr adeg sefydlwyd Balchder Bangor)*
- *Rheolwr Canolfan Deiniol*
- *Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, Adran Strategol a Gwella*
- *Pen Swyddog Adfywio Cymunedol, Adran Economi a Chymuned*
- *Cyfoeth Naturiol Cymru*
- *Cyngor Ysgol Glancegin*
- *Cyn Gadeirydd Grŵp Cymunedol Bangor*
- *Barn pobl ar y stryd fawr ym Mangor*

Draft

# C Casgliadau

**3.1 Mae Partneriaeth Balchder Bangor angen pwrpas clir ac ymrwymiad gan yr unigolion a'r grwpiau sy'n rhan ohono er mwyn iddo gyflawni ei botensial**

**4.1 Mae rhan o uchelgais y Bartneriaeth i '*Hyrwyddo balchder dinesig ymhlith y rhai sy'n byw, yn astudio neu'n gweithio ym Mangor'* yn un clodwiw a heriol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi digwydd yn rhannol ar draws y boblogaeth ac mae rhai arwyddion ac enghreifftiau calonogol.**

**5.1 Cafwyd peth llwyddiant yn adeiladu ar waith cynhenid yn un o gymunedau'r ddinas, ond bod angen cadw'r ffocws yn glir os am lwyddo yn y tymor hir.**

**6.1 Ni chafwyd tystiolaeth glir o weithgaredd y *Grŵp Busnes* na'r busnesau ac eithrio'r cynllun llwyddiannus i ddathlu ymweliad y *Fflam Olympaidd* â Bangor yn ystod mis Mai 2012.**

**7.1 Cafwyd cryn lwyddiant gyda chyflawni'r rhan yma o weledigaeth y Bartneriaeth,**
**' …..*sicrhau canol dinas sy'n ddiogel, glan ac wedi'i chynnal a'i chadw yn dda er mwyn darparu amgylchedd sy'n ddeniadol a diddorol*.' ond mae dal i fod lle i wella.**

**8.1 Mae rhai enghreifftiau o arfer da o safbwynt cydweithio effeithiol rhwng rhai sefydliadau yn y sector gyhoeddus a rhai unedau o fewn y Cyngor gydag unigolion a grwpiau yn lleol ac mae gwersi i'w dysgu.**

**9.1 Mae'n amserol bod Adroddiad Comisiwn Williams newydd gael ei gyhoeddi. Er nad oes eglurder ar hyn o bryd am y cyfeiriad i'r dyfodol, mae'n bwysig nodi bod cyfle yn benodol i ystyried opsiynau o ran cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd a Chynghorau Tref a Chymuned.**

**10.1 Mae Balchder Bangor wedi cael effaith bositif ar bobl sy'n byw, gweithio ac astudio ym Mangor ac ar ymwelwyr â'r Ddinas.**

# CH Argymhellion

## Argymhellion Penodol i Ardal Bangor

### 11.1 Gweithio'n Rhagweithiol

**Mae cyfle nawr i *Gyngor Dinas Bangor* adeiladu ar y gwaith yma drwy roi arweiniad ar y ffordd ymlaen a gweithio'n fwy rhagweithiol ac anffurfiol gyda grwpiau a gwirfoddolwyr**.

### 11.2 Cynllunio

**Mae angen i *Adran Rheoleiddio'r Cyngor* roi sylw manwl ar fyrder i ganfyddiad a phryderon yn ymwneud â datblygiadau llety amlddeiliadaeth anaddas mewn nifer o leoliadau ar draws y Ddinas.**

### 11.3 Cymuned

**Mae angen i swyddogion yr *Adran Economi ac Adfywio* adeiladu ar y gwaith rhagweithiol effeithiol a wnaed gan *Reolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd* a *Chydlynydd Balchder Bangor i*i gefnogi'r cymunedau a'r grwpiau o ddiddordeb drwy weithio'n fwy anffurfiol gyda nhw.**

## Argymhellion i bob ran o Wynedd

### 11.4 Cydweithio'n Effeithiol

**Argymhellir bod yr *Uned Gwasanaethau Stryd* yn ehangu'r arddull yma o gydweithio gyda phartneriaid yn lleol ar draws y Sir fel bod adnoddau'n caniatáu.**

### 11.5 Arweiniad Lleol

**Argymhellir bod y Cyngor yn annog yr ardaloedd eu hunain i gymryd y blaen ac yna'n dethol yn ofalus cyn defnyddio adnoddau prin i gydweithio mewn ardaloedd lleol.**

### 11.6 Cyswllt Lleol

**Mae angen hybu Cynghorau Cymuned (neu grwp o gynghorau cymuned) i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhannu gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Gwynedd yn lleol.**

### 11.7 Ysgolion

**Argymhellir bod y *Gwasanaeth Addysg* yn gweithio gyda'r *Uned Gwasanaethau Stryd* i adnabod enghreifftiau o arfer da ymysg yr ysgolion sy'n hyrwyddo balchder dinesig gan roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith.**

### 11.8 Gwella Gwasanaethau

**Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu yn annog aelodau'r Cabinet i gydweithio'n gyson gyda chymunedau ar draws y Sir er mwyn cynnal ansawdd a gwella gwasanaethau mewn cyfnod heriol.**

Draft

Drafft

mae'r dudalen yma wedi cael ei gadael yn wag yn fwriadol

# PRIF ADRODDIAD

## A Nod

1.1 Roedd yr Ymchwiliad Craffu yn anelu i ateb y prif gwestiynau yma:

a) Beth oedd effaith y Cynllun ar bobl Bangor a Gwynedd?
b) A ydyw wedi gwella'r amgylchedd ym Mangor?
c) A ydyw'n gynaliadwy?

1.2 Os bydd yr Ymchwiliad yn llwyddiannus, bydd yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'r *Aelod Cabinet Amgylchedd* eu hystyried
- Rhoi asesiad clir o lefel perchnogaeth pobl yn lleol o edrych ar ôl eu hamgylchedd yn lleol.
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut i'w datrys
- Nodi gwersi i'w dysgu a chryfderau o ran lledu'r Cynllun ar draws y Sir.

## B Tystiolaeth

2.1 Penodwyd y canlynol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn aelodau o'r Grwp Ymchwiliad

- Y Cynghorydd Eric M Jones
- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
- Y Cynghorydd Gwynfor Edwards
- Y Cynghorydd Nigel Pickavance
- Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
- Y Cynghorydd Gruffydd Williams

2.2 Yn dilyn trafod a chytuno briff y Grŵp Ymchwiliad Craffu cytunwyd ar nifer o gyfarfodydd i gasglu tystiolaeth rhwng Mai a diwedd mis Medi 2013. Cytunwyd mewn cyfarfod gyda Chadeirydd y Grŵp bod y Swyddog Arweiniol a Swyddog Cefnogol yr Ymchwiliad Craffu'n cyfweld nifer o swyddogion y Cyngor, Ysgol leol, Rheolwr Busnes, Grwpiau Cymunedol a phobl ar y stryd o fis Tachwedd hyd at ganol mis Ionawr.

Drafft

| **Dyddiad** | **Casglu Tystiolaeth** |
|---|---|
| 3 Mai 2013 | *Y Cynghorydd W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet Amgylchedd), Steffan Jones (Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu) a Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)* |
| 22 Mai 2013 | *Ystyriwyd:*<br>*Gorchymyn Baeddu Tir gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013*<br>*Adroddiad Archwiliad Cadw Cymru'n Daclus* |
| 27 Mehefin 2013 | *Y Cynghorwyr Mair Rowlands a John Wynn Jones, Amanda Davies, (Pen-swyddog Adfywio Cymunedol) a Peter John Simpson, (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)* |
| 18 Gorffennaf 2013 | *Mr Neil Foden (Pennaeth Ysgol Friars) a Mr Aaron Evans, (Athro Ysgol Friars a fu'n cydweithio gyda'r Fenter yn y gorffennol)* |
| 4 Medi 2013 | *Meryl Jane Wyn – Jones, (Cadeirydd presennol Grŵp Prifysgol Balchder Bangor)* |
| 23 Medi 2013 | *Cynghorydd Elin Walker Jones, (Ward Glyder ym Mangor, a chwaraeodd ran amlwg yng ngweithgareddau'r Fenter)* |
| 25 Medi 2013 | *Gwyn Hughes BA (Hons), MRTPI, (Clerc Cyngor Dinas Bangor)* |
| 25 Tachwedd 2013 | *John Clive Price, Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd Arfon, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol* |
| 25 Tachwedd 2013 | *Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus Dros Do, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol* |
| 25 Tachwedd 2013 | *Meirion Williams a Terry Edwards, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gyfrifol am Gangiau Cymunedol* |
| 3 Rhagfyr 2013 | *Kate Jones, Rheolwr Canolfan Deiniol* |
| 6 Rhagfyr 2013 | *Keith Williams, Swyddog Gorfodaeth Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol* |
| 9 Rhagfyr 2013 | *Catherine Roberts, Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, Adran Strategol a Gwella* |
| 9 Rhagfyr 2013 | *Amanda Davies, Pen Swyddog Adfywio Cymunedol, Adran Economi a Chymuned (trafodaeth bellach)* |
| 17 Rhagfyr 2013 | *Paul Hockaday, Swyddog Prosiect, Adran Economi a Chymuned (cyn swyddog Cymunedau'n Gyntaf ar yr adeg wnaeth Balchder Bangor gychwyn)* |
| 20 Rhagfyr 2013 | *Dylan Jones, Arweinydd Tîm Glanhau Strydoedd Bangor/Bethesda, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol* |
| 20 Rhagfyr 2013 | *Anthony Randles, Cyfoeth Naturiol Cymru* |
| 20 Rhagfyr 2013 | *Holi ar y stryd fawr ym Mangor* |
| 10 Ionawr 2014 | *Y Cynghorydd Nigel Pickavance* |
| 10 Ionawr 2014 | *Cyngor Ysgol Glancegin, Bangor* |
| 10 Ionawr 2014 | *Holi ar y stryd fawr ym Mangor* |
| 28 Ionawr 2014 | *Emlyn Williams, Swyddog Prosiect Cyffredinol, Cyngor Dinas Bangor* |

Draft

Yn ogystal,

- anfonwyd rhestr fer o gwestiynau at Gyngor Dinesig Bangor a bu iddynt benderfynu yn eu cyfarfod ym mis Ionawr bod unigolion i wneud sylwadau unigol a'u trafod yn eu cyfarfod nesaf os bydd amser ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn.

- anfonwyd neges at 'Behaviour Change Centre' – Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor yn holi am ymarferion da maent wedi dod ar draws yn ardaloedd eraill ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn.

Drafft

# C Casgliadau

## 3.1 Mae Partneriaeth Balchder Bangor angen pwrpas clir ac ymrwymiad gan yr unigolion a'r grwpiau sy'n rhan ohono er mwyn iddo gyflawni ei botensial

### Pwrpas Clir

3.2 Cyn edrych ar Balchder Bangor, mae angen ystyried y cyd-destun ehangach a chyfeiriad y gwaith. Yn ystod 2006/07 roedd Cyfadran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn arwain ar brosiect blaenoriaeth Bwrdd Llywio Gwynedd ar y Cyd (Strategaeth Gymunedol Gwynedd) o'r enw Amgylchedd o Ansawdd.

Cynhaliwyd prosiectau peilot yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Caernarfon a Phen Llŷn gyda'r nod o gydweithio gydag asiantaethau cyhoeddus a'r cymunedau lleol i wella ansawdd yr amgylchedd yn lleol.[1]

3.3 Roedd cyfeiriad cychwynnol gwaith Balchder Bangor a'r symbyliad yn cael ei arwain gan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd. Yn benodol fe sefydlwyd Uned Gwasanaethau Stryd newydd yn yr Adran yn ystod 2008 ac fe benodwyd Rheolwr Gwasanaethau Stryd Gwynedd ym mis Mehefin 2008.[2]

Roedd yr Uned newydd yn ymgymryd â'r agweddau canlynol:

- Gorfodaeth
- Codi Ymwybyddiaeth
- Trefi Taclus
- Balchder Bangor

3.4 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Balchder Bangor ym mis Medi 2008, a dyma'r wybodaeth gefndirol (Gweler Atodiad 3 – Gwybodaeth Gefndirol am Balchder Bangor) a'r wybodaeth gyfredol (gwefan Balchder Bangor heddiw) amdano.

3.5 Nodwyd amcanion uchelgeisiol a heriol fel a ganlyn:

- *Hwyluso gwelliannau parhaus i ansawdd yr amgylchedd lleol trwy ddefnyddio a chydlynu adnoddau'r sector cyhoeddus presennol yn effeithiol.*
- *Hyrwyddo gwelliannau parhaol i ansawdd amgylcheddol lleol yn y sector preifat*
- *Gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd amgylcheddol*
- *Addysgu a chodi ymwybyddiaeth o rôl pob dinesydd o ran gwella a gwarchod eu hamgylchedd lleol trwy gyfranogiad effeithiol y gymuned.*

3.6 Roedd y pwyslais yn glir ar wella'r amgylchedd ac nid oedd bwriad i gynnwys gwaith datblygu economaidd.

3.7 Yn dilyn sefydlu'r fenter gwnaed penderfyniad i ychwanegu Datblygiad Economaidd/Adfywio at gylch gorchwyl y Bartneriaeth ac fe luniwyd gweledigaeth o'r newydd fel a ganlyn:

[1] Adroddiad Bwrdd Cyngor Gwynedd 13/3/2007 - Eitem 6

[2] Adroddiad Pwyllgor Craffu Amgylcheddol Cyngor Gwynedd, 29/4/2010 - Eitem 8, Rhan 3.14

## Gweledigaeth Newydd

'*Hyrwyddo balchder dinesig ymhlith y rhai sy'n byw, yn astudio neu'n gweithio ym Mangor. Byddant gyda'i gilydd yn gyfrifol am safon yr amgylchedd lleol ac yn cyflawni'r hyn fydd yn esgor ar adfywio lleol a gwella ansawdd bywyd. Cyflawnir hyn trwy sicrhau canol dinas sy'n ddiogel, glan ac wedi'i chynnal a'i chadw yn dda er mwyn darparu amgylchedd sy'n ddeniadol a diddorol*.'

## Amcanion Newydd

- *Sicrhau gwelliannau parhaol i ansawdd yr amgylchedd lleol trwy ddefnyddio a chydlynu adnoddau presennol y sector cyhoeddus yn effeithiol*
- *Sicrhau gwelliannau parhaol i ansawdd yr amgylchedd lleol o fewn y sector preifat*
- *Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd amgylcheddol*
- *Addysgu, a chodi ymwybyddiaeth pob dinesydd am eu swyddogaeth o wella a gwarchod eu hamgylchedd lleol trwy gael y gymuned i gyfrannu'n effeithiol*.

3.8 Cafodd aelodau'r ymchwiliad eu hargyhoeddi bod y mwyafrif o'r partneriaid a gyfwelwyd yn deall yn rhannol beth yw gweledigaeth Balchder Bangor. Serch hynny, roedd y mwyafrif yn ystyried mai'r prif bwrpas oedd codi ymwybyddiaeth am broblemau sbwriel yn unig.

3.9 Mae'n ymddangos i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau bod peth dryswch yn bodoli ynglŷn â beth yw pwrpas y Bartneriaeth, ond y gellir delio gyda hyn drwy gynnal hunan asesiad gyda chefnogaeth hwylusydd allanol.

3.10 Nid yw hyn yn fater hynod o ystyried bod Balchder Bangor wedi bod yn gweithredu dros gyfnod o 5 mlynedd a mwy. Yn wir, byddai sefydlu trefn o gynnal hunan werthusiad yn flynyddol yn fodd i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gwireddu ei botensial dros y blynyddoedd nesaf.

## Ymrwymiad Unigolion a Grwpiau

3.11 Beth bynnag fo pwrpas unrhyw bartneriaeth, mae sicrhau ymrwymiad partneriaid i weithredu i gyflawni'r pwrpas hwnnw yn fater arall. Cafwyd amrywiaeth i'r aelodaeth ers ei sefydlu, ond mae'n cynnwys unigolion a grwpiau o'r sector cyhoeddus, cymunedol a phreifat.[3]

3.12 Nid ar chwarae bach mae llwyddo mewn partneriaeth, ac mae nifer o resymau teilwng am hyn. Dyma rai o'r gofynion heriol sydd eu hangen i lwyddo:

- Trefn penderfynu dryloyw a chlir
- Parchu ei gilydd
- Rolau a pherthnasau gweithio wedi cael eu cytuno'n glir ac wedi cael eu datgan/nodi
- Ymddiried yn ei gilydd
- Parodrwydd i weithio at yr un nod cytunedig
- Ymroddiad i weithio at yr un nod cytunedig
- Mesuryddion cytunedig i asesu canlyniadau

[3] Gweler Atodiad 1 – Aelodaeth a Strwythur Balchder Bangor

3.13 Nid bwriad yr Ymchwiliad yw amlygu diffygion o safbwynt yr uchod yng nghyd destun Balchder Bangor. Yn ogystal nid oes awydd i daflu bai yma. Roedd yn glir i aelodau'r ymchwiliad bod yr unigolion a'r grwpiau sy'n rhan o Balchder Bangor yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n bodoli. Y cwestiwn sydd rhaid i'r partneriaid eu hunain ateb yw, a oes ganddynt yr awydd a'r ymroddiad i wynebu'r her gyda'i gilydd?

3.14 Un o'r prif ddiffygion a nodwyd gan aelodau'r bartneriaeth oedd diffyg cydlynydd i dynnu'r Bartneriaeth at ei gilydd. Roedd cryn ganmoliaeth gan yr holl bartneriaid ac unigolion eraill i ymroddiad y ddau swyddog a fu'n flaenllaw yn cydlynu'r gwaith sef y Rheolwr Gorfodaeth Stryd a Chydlynydd Balchder Bangor.

3.15 Yn sgil ymadawiad y Cydlynydd ni phenodwyd olynydd am gryn amser. Tystiolaethodd nifer i'r ffaith bod y gwacter yma wedi arwain at golli momentwm a bod hyn wedi llesteirio'n ddifrifol ar waith y Bartneriaeth ers ei hymadawiad yn ystod haf 2012.

3.16 Serch hynny, fe benodwyd a chyflogwyd Swyddog newydd yn ddiweddar, sydd â chyfrifoldeb am nifer o weithgareddau ar wahân i Balchder Bangor sef *Swyddog Prosiectau Cyffredinol Cyngor Dinas Bangor*. Mae rhai o'r partneriaid yn bryderus nad oes cyfeiriad clir a chytunedig i rôl y Swyddog yma o safbwynt Balchder Bangor.

3.17 Mae gwaith mapio wedi dangos yr angen i gryfhau cyswllt gyda *Chartrefi Cymunedol Gwynedd* a *Choleg Menai*

3.18 O safbwynt mesur llwyddiant y gwaith, mae hwn yn fater sydd angen ystyriaeth yn fuan. Mae'r canlynol yn cael eu hystyried fel Dangosyddion posibl yn 2008:

- Strydoedd, mannau cyhoeddus a thir preifat cyfagos yn lan a diogel
- Mannau cyhoeddus a dodrefn stryd mewn cyflwr da
- Siopau ac adeiladau mewn cyflwr da
- Ymglymiad Cymunedol
- Lefel uchel o fodlonrwydd 'cwsmer'
- Ymdriniaeth Wasg Cadarnhaol
- Blodau
- Celf Stryd

Drafft

## Uchelgais y Bartneriaeth

**4.1 Mae rhan o uchelgais y Bartneriaeth i '*Hyrwyddo balchder dinesig ymhlith y rhai sy'n byw, yn astudio neu'n gweithio ym Mangor'* yn un clodwiw a heriol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi digwydd yn rhannol ar draws y boblogaeth ac mae rhai arwyddion ac enghreifftiau calonogol.**

4.2 Cynhaliwyd Arolwg yn y Stryd Fawr ym Mangor ar 20 Rhagfyr 2013 a 10 Ionawr 2014. Nid oedd llawer o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd yn gyffredinol am Balchder Bangor gyda 60% o'r rhai a holwyd yn datgan nad oeddent wedi clywed amdano ond o blith y rhai a oedd yn byw, gweithio neu astudio ym Mangor roedd 57% wedi clywed amdano.

4.3 Un o nodweddion Bangor yw'r mosaic cyfoethog o bobl a chymunedau sy'n ffurfio'r ddinas. Rydym o'r farn nad oes angen gwario adnoddau i godi proffil Balchder Bangor. Yn wir, mae arwyddion clir bod y Bartneriaeth wedi cael effaith cyfyngedig ar rai carfannau o'r gymdeithas yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

4.4 Er mwyn asesu llwyddiant y Bartneriaeth i gyflawni'r uchelgais uchod, rydym o'r farn bod angen ystyried hyn dros gyfnod hirach o tua 10 mlynedd. Rydym yn nodi hyn oherwydd bod gobaith y bydd y genhedlaeth sy'n derbyn eu haddysg gynradd ar hyn o bryd yn dysgu arferion o fyw yn fwy cynaliadwy ac ystyriol o'r amgylchedd.

4.5 Er bod rhai plant o Ysgol Glan Cegin a gyfwelwyd â nhw wedi cymryd rhan yn un o ymgyrchoedd Balchder Bangor ac wedi mwynhau'r profiad ac wedi dysgu gwersi gwerthfawr am lendid a chynaliadwyedd, nid oeddynt yn ymwybodol o Balchder Bangor.

*'Gosodwyd sialensiau gan Tŷ Cegin yn ystod yr haf ac fe wnaethom gymryd rhan yn casglu sbwriel yn ystod yr haf efo ffrindiau 'Tŷ Cegin' a Glanrafon a gwneud pethau gwahanol'.*[4]

4.6 Mae hyn yn neges bwysig i'r Bartneriaeth, sef bod y gwaith yn mynd rhagddo heb yr angen i boeni am ddelwedd a hyrwyddo'r Bartneriaeth fel y cyfryw. Mae'r neges yn glir gan y plant eu bod yn deall bod angen gweithredu i wella'r amgylchedd.

4.7 Mae lle i adeiladu'n rhagweithiol ar y brwdfrydedd cynhenid yma yn y gymdeithas a hwyrach nad trwy hyrwyddo'r Bartneriaeth yw'r ffordd orau i wneud hyn. Mae'n amserol bod *Adroddiad y Comisiwn at Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sydd newydd ei gyhoeddi* (*Ionawr 2014 – 'Adroddiad Comisiwn Williams'*) yn cyfeirio at gymhlethdod darparu gwasanaethau cyhoeddus yn lleol. Efallai y daw rhyw oleuni ar y ffordd orau ymlaen o'r dilyniant i'r Adroddiad hwnnw yn ystod y misoedd nesaf.

4.8 Mae'r Bartneriaeth wedi llwyddo i ryw raddau i gydlynu gweithgaredd ym maes glendid a gwella'r amgylchedd ac wedi cynnal amryw weithgareddau llwyddiannus gyda charfannau gwahanol o'r gymdeithas. Dyma sylwadau ar rai ohonynt.

[4] Cyfweliad 19 – Cyfweliad Cyngor Ysgol Glancegin yn *Atodiad 2 – Cyfweliadau a Chofnodion*

Draft

## Myfyrwyr

4.9 Mae llawer o dystiolaeth glir bod myfyrwyr y Brifysgol drwy Grŵp Balchder Bangor y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi cymryd camau breision i ddelio gyda phroblemau sbwriel drwy gynnal ymgyrchoedd 'blitz', cyhoeddusrwydd a chyd-drafod gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd a'r Heddlu. (Gweler Atodiad 2 – Cyfweliadau a Chofnodion). Dyma rai enghreifftiau:

'*Edrychiad y strydoedd yn llawer gwell ar ddiwedd blwyddyn myfyrwyr wrth ymgymryd â'r casgliadau ychwanegol*. (Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd Arfon)'

'*….. mae rhywfaint o wahaniaeth wedi digwydd o ganlyniad i waith y Brifysgol…..'* (Swyddog Gorfodaeth Stryd Arfon)

'*Rydym yn delio trwy'r Undeb Myfyrwyr ac yn gallu gweithio gyda'r Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr*.' Cynghorydd Nigel Pickavance)

4.10 Roedd swyddogion y Cyngor a'r Brifysgol yn gytûn mai defnyddio dulliau electronig/cyfryngau cymdeithasol a siarad uniongyrchol a chnocio drysau llety myfyrwyr oedd y ffordd effeithiol o weithredu. Nid oes llawer o werth mewn dosbarthu taflenni a llythyrau.

'*Mae sgwrs yn gweithio'n llawer gwell na gadael nodyn trwy'r blwch post*. '(Swyddog Gorfodaeth Stryd Arfon)

'*….dylid troi at ddulliau electronig er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd. Mae Facebook yn enghraifft o hyn.'(*Cadeirydd Grŵp Prifysgol Balchder Bangor)

4.11 Ochr arall y ddadl oedd bod nifer o'r rhai a holwyd yn y Stryd ym Mangor yn dal i ystyried bod ymddygiad y mwyafrif o fyfyrwyr yn anghyfrifol o safbwynt sbwriel. Nodwyd pryder yn arbennig am yr hyn a welwyd fel anallu i ddylanwadu ar bolisïau cynllunio a oedd i weld yn caniatáu cynnydd parhaus mewn adeiladau anaddas i letya myfyrwyr yn ddigyfeiriad ar draws y ddinas heb fannau digonol i gadw sbwriel a delio gyda sŵn. . Dyma rai enghreifftiau:

*A oes yna broblem benodol ynglŷn â strydoedd Bangor?*

- *Myfyrwyr a sbwriel tu allan i dai*
- *Mae llety myfyrwyr yn anniben (gwylanod)*

4.12 Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod Coleg Menai wedi bod yn rhan o Balchder Bangor o safbwynt gweithgareddau yn ymwneud â glendid a sbwriel, ond myfyrwyr Coleg Menai a ddyluniodd daflen ar gyfer gweithgaredd y Fflam Olympaidd ym mis Mai 2012.

Drafft

## Ysgolion

4.13 Mae llawer o weithgareddau wedi digwydd gydag ysgolion yn cynnwys Ysgol y Garnedd, Hirael, Tryfan, Friars ac eraill ac yn parhau i ddigwydd.

4.14 Nodwyd uchod (4.5 – 4.6) y potensial i ffrwyno brwdfrydedd, arloesedd ac egni plant a phobl ifanc yn yr un modd â'r myfyrwyr. Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o weithgaredd gyda'r ysgolion, ond mae'r enghreifftiau a welwyd yn galonogol.

4.15 Yn hytrach cafwyd tystiolaeth bod gweithgareddau niferus yn digwydd mewn ysgolion fel rhan ganolog o'r cwricwlwm neu yn gysylltiedig. Mae'n ymddangos bod yr ysgolion yn llwyr ymwybodol o'r angen i hyrwyddo balchder dinesig ymysg eu disgyblion ac yn cynnal gweithgareddau'n rheolaidd fel rhan annatod o'u gwaith addysgu.

4.16 Unwaith eto, mae'r thema o fod yn rhagweithiol ac adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd yn gynhenid yn y gwahanol gymdeithasau o Fangor yn dod i'r amlwg. Mae'n bosibl y gallai'r Bartneriaeth gynnig cefnogaeth i'r gweithgareddau yma sy'n digwydd yn barod trwy roi cyhoeddusrwydd a chymorth i'w trefnu yn hytrach na mynd ati i drefnu gweithgareddau ychwanegol. Gallai hyn fod yn rhan o rôl y Swyddog Trefi Taclus.

4.17 Un o brif fanteision gweithio mewn partneriaeth yw cydweithio er mwyn defnyddio adnoddau prin yn well. Gwelwyd tystiolaeth bod llawer o weithgareddau adeiladol ac ymwybyddiaeth yn yr ysgolion o safbwynt cyflawni gweledigaeth Partneriaeth Balchder Bangor yn digwydd eisoes. Byddai mapio'r gweithgaredd a chydlynu trefniadau trwy gydgordio gydag Adran Addysg Cyngor Gwynedd a'r penaethiaid ysgolion yn ffordd werthfawr i wneud asesiad o'r sefyllfa gyfredol. Byddai modd rhoi cyhoeddusrwydd a chydlynu'r gwaith o'r 'gwaelod i fyny' fel petai, gan wneud defnydd da o adnoddau prin.

Draft

## Y Gymuned

**5.1 Cafwyd peth llwyddiant o adeiladu ar waith cynhenid yn un o gymunedau'r ddinas, ond bod angen cadw'r ffocws yn glir os am lwyddo yn y tymor hir.**

5.2 Mae gweithgaredd sylweddol wedi cymryd lle yng nghymuned Maesgeirchen lle cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd 'blitz' i glirio sbwriel.

5.3 Yn ystod y cyfnod cyn sefydlu Balchder Bangor, roedd Partneriaeth Maesgeirchen yn weithredol yn y gymuned ers 2003. Yn y cyfnod yma, daeth criw o bobl ifanc yn eu harddegau ynghyd drwy gydweithio gyda Phartneriaeth Maesgeirchen i weld a ellid gweithredu i ddelio gyda phroblemau sbwriel yn y gymuned.

5.4 Cafwyd cydweithrediad gan Swyddog Cadwch Cymru'n Daclus, Uwch Warden Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd a swyddogion eraill o Gyngor Gwynedd. Aed ati'n llwyddiannus i gychwyn ar y gwaith o glirio'r Afon Cegin sy'n llifo drwy'r gymuned.

5.5 Yn dilyn sefydlu Balchder Bangor, fe adeiladwyd yn llwyddiannus ar y gwaith yma a oedd wedi cychwyn yn barod yn y gymuned, ac fe gynhaliwyd ymgyrchoedd llwyddiannus pellach i glirio sbwriel gyda chydweithrediad swyddogion Cyngor Gwynedd ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill.

5.6 Roedd Partneriaeth Maesgeirchen yn canolbwyntio ar gynnwys gwirfoddolwyr o'r gymuned yn y gwaith gan gydlynu gyda Rheolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd drwy Grŵp Cymunedol Balchder Bangor. Mae Swyddog Prosiect Maesgeirchen yn nodi, '*Roedd Balchder Bangor yn hawdd i'w ddeall ar y dechrau ond yna fe ffurfiwyd is-grwpiau ac roedd hi'n anodd dal i fyny gyda'r holl bwyllgorau*.'[5]

5.7 Mae sylwadau gan Gydlynydd y Prosiect 'Taclo Tipio Cymru' ar draws y gogledd yn nodi thema debyg, '*Mae gan Bartneriaeth Balchder Bangor strategaeth a luniwyd gyda grŵp o wahanol asiantaethau, yn cynnwys busnesau lleol. Unwaith oedd y strategaeth ar waith, roedd yn mynd yn dda, ond roedd problemau gydag enw'r brand a'r logo lliwgar. Maes arall oedd yn anodd oedd bod y cyfarfodydd yn rhy ffurfiol. Roedd gosodiad yr ystafell yn rhy ffurfiol, gyda'r seddi ymhell oddi wrth ei gilydd, a gorfod pwyso botwm i siarad. Roedd gan aelodau'r grwpiau flaenoriaethau gwahanol hefyd*.'[6]

5.8 Mae'n ymddangos i ni bod y gwaith cychwynnol a wnaed gan Balchder Bangor wedi bod yn llwyddiannus iawn drwy gydweithio gyda'r cymunedau gan adael i'r gymuned arwain a rhoi cyfeiriad i'r gwaith 'o'r gwaelod i fyny' fel petai. Daeth hyn yn amlwg drwy'r cyfweliadau i gyd sef bod *Rheolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd* a *Chydlynydd Balchder Bangor* yn gweithredu mewn modd rhagweithiol gyda'r cymunedau gyda ffocws clir ar faterion amgylcheddol.

5.9 Mae'r drafft cychwynnol o gylch gorchwyl *Menter Balchder Bangor* a ystyriwyd ym mis Medi 2008 yn nodi'n benodol fel troednodyn, '*Mae'r uchod (sef Balchder Bangor) yn canolbwyntio ar gyflwr yr amgylchedd adeiledig a does dim bwriad i ddatblygu ar unrhyw*

[5] Cyfweliad 15 yn *Atodiad 2 – Cyfweliadau a Chofnodion*
[6] Cyfweliad 17 yn yr atodiad uchod.

*waith arall, e.e. Datblygu Economaidd*). (Gweler Atodiad 3 - Gwybodaeth Gefndirol Balchder Bangor**)**

Yna yn ystod 2010 fe ystyriwyd bod angen cyflwyno dimensiwn ychwanegol i waith Balchder Bangor yn ymwneud ag adfywio economaidd. Er bod ystyried yr elfen yma yn clymu'n naturiol gyda'r thema o wella'r amgylchedd ar un olwg, mae'n ymddangos bod ychwanegu hyn at gylch gwaith y Bartneriaeth wedi creu dryswch i nifer o aelodau'r Bartneriaeth ac wedi cyfrannu at golli ffocws ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd.

5.10 Nid ydym yn ymwybodol o waith penodol arall yn digwydd mewn cymunedau eraill o Fangor megis Hirael, Garth, Bangor Uchaf (ac eithrio myfyrwyr).

Drafft

## Busnesau

**6.1 Ni chafwyd tystiolaeth glir o weithgaredd y Grŵp Busnes na'r busnesau ac eithrio'r cynllun llwyddiannus i ddathlu ymweliad y Fflam Olympaidd â Bangor yn ystod mis Mai 2012.**

6.2 Mae cyfeiriad at weithgaredd egnïol ar gychwyn sefydlu Balchder Bangor.

- *Grŵp Busnes - gweithgaredd hyrwyddo eang, hysbysebion, talebau ac ati.*
- *Arddangosfeydd celf mewn siopau gwag*[7]

6.3 Yn ystod y cyfnod o sefydlu Balchder Bangor ym mis Medi 2008, fe nodir yr angen i gynnwys rhai partneriaid allweddol fel rhan o'r fenter. Yng nghyd-destun busnesau fe nodir *Busnesau Bangor a Chaernarfon yn erbyn Trosedd (BBCET), Siambr Fasnach, Fforwm Adwerthol/Canolfan Deiniol/ Canolfan Wellfield* ac fe sefydlwyd Grwp Busnes Balchder Bangor.

6.4 Fel rhan o'r Ymchwiliad fe lwyddwyd i gyfweld ag un cynrychiolydd yn unig o'r busnesau, felly, mae ein casgliadau yn ddibynnol iawn ar y sylwadau a wnaed gan y person yma sef Rheolwr cyfredol Canolfan Deiniol sydd yn ei swydd ers 2012 adeg cychwyn ar baratoadau ar gyfer y Fflam Olympaidd.[8]

6.5 Nododd bod y Cydlynydd ar y dechrau yn cyflawni gwaith da iawn a bod y Grŵp wedi bod yn werthfawr dros ben iddi hi er mwyn sefydlu perthynas gyda rhai o'r busnesau eraill. Roedd y ffaith bod ffocws clir i anelu at wythnos o weithgareddau adeg y Fflam Olympaidd yn bwysig. Nododd yn benodol, '*Nid oedd y Grŵp Busnes yn gwneud llawer gydag elfen amgylcheddol y gwaith a wnaed dan Bartneriaeth Balchder Bangor gan mai grŵp bychan iawn o fusnesau oedd ef ac roedd gan Ganolfan Deiniol ei staff glanhau ei hun sy'n codi gwm cnoi oddi ar y llawr*.'

6.6 Nodwyd bod Cyngor Dinas Bangor wedi penodi swyddog i swydd newydd yn ddiweddar a'i fod yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd er mwyn trefnu gweithgareddau fel 'prynu'n lleol'.

[7] Adroddiad Pwyllgor Craffu Amgylcheddol Cyngor Gwynedd, 29/4/2010 - Eitem 8, Rhan 3.14
[8] Cyfweliad 17 a Cyfweliad 11 yn *Atodiad 2 - Cyfweliadau*

## Cyflawni'r Weledigaeth

**7.1 Cafwyd cryn lwyddiant gyda chyflawni'r rhan yma o weledigaeth y Bartneriaeth, ' …..*sicrhau canol dinas sy'n ddiogel, glan ac wedi'i chynnal a'i chadw yn dda er mwyn darparu amgylchedd sy'n ddeniadol a diddorol*.' ond mae dal i fod lle i wella.**

7.2 Cynhelir arolwg blynyddol gan Cadwch Gymru'n Daclus (Pa mor lan yw ein strydoedd?) o'r sbwriel sydd ar strydoedd Cymru. Mae'r drefn a ddilynir yn golygu bod aseswyr annibynnol yn ymweld â nifer o strydoedd penodol ar hap ym mhob Sir ar draws y wlad gan fesur faint o wahanol fathau o Sbwriel, Baw Cwn, Graffiti, Chwyn ac arwyddion negyddol eraill sy'n anharddu'r stryd. Mae hyn yn cynnwys rhai o strydoedd Bangor.

Yn ogystal, mae'r Arolwg yn mesur y sbwriel mewn 3 parth gwahanol:

- Parth 1 – Canol trefi, canolfannau siopa, prif ganolfannau trafnidiaeth, meysydd parcio canolog
- Parth 2 - Ardaloedd preswyl dwysedd uchel, ardaloedd hamdden brysur, meysydd parcio yn y maestrefi
- Parth 3 – Ardaloedd preswyl dwysedd isel, ystadau diwydiannol

Yn ogystal, mae tystiolaeth ddiweddar yn cadarnhau bod nifer cwynion a thipio anghyfreithlon wedi lleihau (Gweler Atodiad 4 - Ceisiadau glanhau strydoedd; Cwynion am dipio anghyfreithlon).

7.3 Mae'r Arolwg Cadwch Cymru'n Daclus yn cyfuno'r holl ddata ac yn llunio Mynegai Glendid ar gyfer pob Sir yng Nghymru. Yn ystod 2011-12, roedd Gwynedd yn rhagori ar bob Sir arall yng Nghymru ac yn ennill y sgôr uchaf am y flwyddyn. Yn ogystal, dim ond Gwynedd, Merthyr Tudful a Sir Benfro a lwyddodd i gael sgôr uwch na'r cyfartaledd ar draws y 3 parth. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn nodi y gall y Mynegai Glendid yma gael ei ddefnyddio fel man cychwyn i wella arno.

7.4 Mae bod ar y brig yn dwyn ei fanteision ac anfanteision. Er mwyn cynnal ei safle rhagorol yn y tabl cenedlaethol, bydd angen i'r Cyngor wneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael ac i weld a ellir cynnal y safon drwy weithio mewn dulliau amgen. Yn sicr, mae gweithio mewn partneriaeth yn ffordd posibl i gynyddu capasiti drwy gydweithio'n fwy effeithiol. Mi fedrai hyn arwain at gynnal neu wella perfformiad er gwaethaf y pwysau cynyddol ar wasanaethau a lleihau capasiti ac adnoddau yn y sector cyhoeddus.

7.5 Yn wir, yn ei Adroddiad ar Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ddiweddar, mae'r Aelod Cabinet Adnoddau yn tynnu sylw at bum cynllun/dangosydd sy'n cael eu hamlygu am lithriad mewn perfformiad yn ystod 2012-13.[9]

Un o'r pump yma yw'r Mesur ar Lendid Strydoedd yng Ngwynedd. Awgrymir yn yr Adroddiad bod hwn yn deillio o leihad mewn adnoddau ar gyfer cyflawni'r gwaith. Felly, byddai medru asesu a fu llwyddiant yn benodol ym Mangor gyda gwaith Partneriaethol Balchder Gwynedd i gynnal a gwella glendid y strydoedd yn neges werthfawr i'r Aelod Cabinet Amgylchedd wrth iddo gynllunio'r gwasanaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf yng nghyd-destun y wasgfa ariannol gynyddol.

[9] Pwyllgor Craffu Corfforaethol, 16/1/2014 – Strategaeth Arbedion - Eitem 5, pwynt 4.6

## Arolwg Stryd Balchder Bangor[10]

7.6 Aed ati felly i gynnal Arolwg yn Stryd Fawr Bangor ar 20 Rhagfyr 2013 a 10 Ionawr 2014 gyda chydweithrediad parod ‘*Gum Drop’Cyf, Cadwch Gymru’n Daclus* ac *Uned Gyfathrebu Cyngor Gwynedd*. Mae’r Arolwg yn rhoi ciplun o ganfyddiadau’r cyhoedd ac er nad yw’n rhoi darlun cynhwysfawr, mae yma negeseuon gwerthfawr am Bartneriaeth Balchder Bangor ac ansawdd amgylcheddol y ddinas.

7.7 Cafwyd ymateb gan 42 o bobl o amrywiol oed gyda thua hanner y nifer dan 50 oed. Mae’n bosibl gwneud nifer o ddehongliadau o wybodaeth o’r math yma, ac awgrymwn fod yr Aelod Cabinet Amgylchedd a phartneriaid Balchder Bangor yn ystyried yr wybodaeth lawn yn fanylach - yn enwedig rhai o’r sylwadau penodol a wnaed gan unigolion.

7.8 Roedd 3 prif gwestiwn yn cael ei holi:

- Sut ydych chi’n teimlo am strydoedd Bangor heddiw?
- Ydych chi’n teimlo bod strydoedd Bangor wedi newid dros y 3 blynedd ddiwethaf?
- Ydych chi wedi clywed am Balchder Bangor?

Gofynnwyd i aelodau’r cyhoedd roi eu barn ar gyfer 5 categori:

- Glendid
- Taclusrwydd
- Diogelwch
- Dengarwch
- Diddorol


Gofynnwyd i bob person nodi pa un o’r canlynol oedd yn disgrifio’r sefyllfa orau iddynt hwy ar gyfer pob un o’r pum categori uchod - e.e.

1. Glân iawn
2. Glân
3. Eithaf Glân
4. Ddim yn lân iawn
5. Ddim yn lân o gwbl

7.9 Mae aelodau’r Ymchwiliad wedi ystyried yr wybodaeth ac o’r farn bod tair brif neges yn deillio o’r Arolwg.

[10] Gweler Atodiad 5 – Sylwadau Arolwg Stryd Bangor


7.10 Felly mae'r canlyniad i'r prif gwestiwn cyntaf fel a ganlyn: '*Ydych chi'n teimlo bod strydoedd Bangor yn.....'*




| | Glendid/ Cleanliness | Taclusrwydd/ Tidyness | Diogelwch/ Safety | Dengarwch/ Attractiveness | Diddorol/ Interesting |
|---|---|---|---|---|---|
| Positif neu Eithaf Positif/ Positive or Quite Positive | 28.6 | 38.1 | 54.8 | 23.8 | 38.1 |
| Ddim yn bositif iawn neu o gwbl/ Not very positive or at all | 40.5 | 35.7 | 21.4 | 45.2 | 40.5 |

Mae hyn yn dangos canlyniad positif iawn ar gyfer Teimlo'n Ddiogel ym Mangor; ond yn dangos canlyniad llai positif ar gyfer y categorïau eraill. Mae hyn yn awgrymu nad ydyw'r cyhoedd yn gwbl hapus gyda'r sefyllfa gyfredol ym Mangor yn arbennig o safbwynt glendid a dengarwch.


7.11 Mae'r canlyniad i'r ail brif gwestiwn fel a ganlyn: '*I ba raddau ydych chi'n teimlo fod strydoedd Bangor wedi newid dros y tair blynedd ddiwethaf o safbwynt.....*




| | Glendid/ Cleanliness | Taclusrwydd/ Tidyness | Diogelwch/ Safety | Dengarwch/ Attractiveness | Diddorol/ Interesting |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Ychydig neu Lawer/ Improved a Little or a Lot | 33.3 | 40.5 | 35.7 | 40.5 | 38.1 |
| Gwaethygu Ychydig neu Lawer/ Got a Little or a Lot Worse | 31.0 | 21.4 | 19.0 | 21.4 | 23.8 |

Mae hyn yn dangos canlyniad positif yn y pum categori ac yn awgrymu bod y cyhoedd yn hapus gyda'r cynnydd a wnaed dros y tair blynedd ddiwethaf.

7.12 Mae'r ymateb i'r trydydd cwestiwn fel a ganlyn: '*Ydych chi wedi clywed am fenter Balchder Bangor?*'




Roedd un o bob tri o'r sampl a holwyd wedi clywed am Balchder Bangor, ond roedd dau o bob tri o'r rhai a oedd yn gweithio, byw neu astudio ym Mangor wedi clywed amdano.

7.13 Fel nodwyd eisoes, nid yw'r Arolwg yma'n rhoi darlun cynhwysfawr o farn y cyhoedd, ond rydym o'r farn ei fod yn dangos bod yna le i wella o safbwynt yr amgylchedd ym Mangor yn arbennig i gynnal glendid ac i'w wneud yn fwy deniadol.

Er gwaethaf hyn, mae yma neges glir bod yr amgylchedd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bod angen parhau i weithio i gynnal y gwelliant hwnnw.

Nid yw brand Balchder Bangor yn gyfarwydd i'r mwyafrif o'r cyhoedd ym Mangor, ond ym marn yr Ymchwiliad nid ydyw hyn yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig yw bod un o brif amcanion y Bartneriaeth i gynnal canol dinas glân, taclus, deniadol a diddorol yn cael ei wireddu.

Mae aelodau'r Ymchwiliad o'r farn bod gwaith y Bartneriaeth wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at gyflawni'r gwelliannu yma ers ei sefydlu yn 2008.

Draft

## Arfer Da

**8.1 Mae rhai enghreifftiau o arfer da o safbwynt cydweithio effeithiol rhwng rhai sefydliadau yn y sector gyhoeddus a rhai unedau o fewn y Cyngor gydag unigolion a grwpiau yn lleol ac mae gwersi i'w dysgu**.

8.2 '*If there are no easy answers there are still available and discoverable hard answers*.' , y llenor Cymreig Raymond Williams. Er nad cyfeirio at gydweithio fel y cyfryw mae'r dyfyniad yma, y mae'n ddisgrifiad priodol ac amserol o'r sefyllfa yng Ngwynedd a Chymru heddiw.

Gellid ystyried yr '*easy answers'* i fod yn cyfeirio at gynyddu adnoddau ariannol i ddelio gyda diffyg neu angen o ran darparu gwasanaeth. Bellach, nid ydyw'r opsiwn yma'n bosibl yn y cyd-destun presennol o ran ariannu'r sector gyhoeddus. Yr hyn sy'n cynnig ei hun felly yw rheoli galw am wasanaethau a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio. Er bod cydweithio'n aml yn anodd (*hard answer*) yn y pen draw mi all fod yn ffordd well ac yn fwy llwyddiannus a chynaliadwy.

Mae Partneriaeth Balchder Bangor wedi dangos mor anodd yw gweithio mewn partneriaeth ac eto, mae nifer o ganlyniadau llwyddiannus iawn i'r cydweithio.

## Brandio

8.3 Un o'r elfennau a ddaeth yn glir wrth gynnal yr Ymchwiliad a siarad gydag unigolion a fu'n rhan o'r Cynllun oedd bod gosod brand i'r cynllun yn ddefnyddiol mewn rhai sefyllfaoedd ond yn ddryslyd mewn sefyllfaoedd eraill. Cafwyd rhai sylwadau bod yr enw yn cyfleu ystyron gwahanol i wahanol garfannau o gymdeithas. Yn anochel, mae rhai pobl yn hoffi'r enw a'r logo, eraill ddim yn ei hoffi a rhai heb glywed amdano ond yn ymwybodol o'r gweithgareddau.

Mae'n ymddangos i ni bod cryn bwysigrwydd yn cael ei roi i'r brand gan rai. Er bod cael enw gweithiol i'r cynllun yn ddefnyddiol i raddau, rydym o'r farn nad ydi rhoi sylw i'r enw a'r logo yn syniad da, ac rydym yn cydweld gyda barn Rheolwr Canolfan Deiniol, '*Nid oes son am label 'Balchder Bangor' erbyn hyn ond mae'r sefydliadau'n parhau i gydweithio. Buasai 'Bangor' ar ei ben ei hun, fel enw/brand, yn fwy addas*.[11]

Y pwynt ydi bod cydweithio'n digwydd.

[11] Cyfweliad 17 a Cyfweliad 11 yn *Atodiad 2 - Cyfweliadau*

Draft

## Adroddiad Comisiwn Williams

**9.1 Mae'n amserol bod *Adroddiad Comisiwn Williams* newydd gael ei gyhoeddi. Er nad oes eglurder ar hyn o bryd am y cyfeiriad i'r dyfodol, mae'n bwysig nodi bod cyfle i ystyried opsiynau.**

Dyma argymhelliad 27 o'r adroddiad:

> '*Rhaid i drefniadau ar gyfer cynrychioli'r gymuned a'r gymdogaeth gael eu cynnal a'u gwella. Er mwyn gwneud hynny:*
> - *Dylid hefyd uno ardaloedd cynghorau tref a chymuned neu eu hehangu (paragraff 3.130);*
> - *Dylai awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu system ar gyfer rheoli'r gymdogaeth neu ddull tebyg o ymgysylltu â dinasyddion er mwyn nodi, blaenoriaethu a mynd i'r afael â materion lleol penodol, yn enwedig drwy gyd-gynhyrchu. (paragraff 3.134)*'

## 9.2 Cyngor Dinas Bangor

Mae dull presennol y Cyngor o weithredu yn draddodiadol ac yn cynnwys cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda chofnodion. Cafwyd amrywiaeth o sylwadau gan y rhai a gyfwelwyd ynglŷn â'r math yma o weithredu.

Roedd rhai yn ystyried bod rhai o gyfarfodydd Balchder Bangor yn rhy ffurfiol ac nad oedd angen trefnu i gyfarfod yn rheolaidd ond yn hytrach yn ôl y gofyn gan ganolbwyntio ar weithgaredd penodol.

Mae cyfle yma i wyntyllu'r mater i weld a oes lle i fod yn llai ffurfiol a mwy rhagweithiol ac ystyried pa rôl sydd fwyaf addas i Gyngor Dinas Bangor yn y dyfodol.

O safbwynt mewnbwn uniongyrchol gan swyddogion Cyngor y Ddinas, roedd y rhai a gyfwelwyd yn canmol Cydlynydd Balchder Bangor gyda nifer o sylwadau'n pwysleisio ei bod yn hanfodol i gael swyddog dynodedig i gadw ffocws ar y gwaith ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Cafwyd sylwadau positif hefyd am y Swyddog Prosiect Cyffredinol sydd wedi ei benodi'n ddiweddar gan nodi bod ei ddull o weithredu'n anffurfiol yn syniad da.

## 9.3 Cyngor Gwynedd

Yn yr un modd mae'n amserol i Gyngor Gwynedd ystyried y pwyntiau uchod o Adroddiad Williams yng nghyd-destun Balchder Bangor i weld beth yw'r ffordd orau ymlaen.

Mae'n briodol nodi bod yr holl sylwadau a gafwyd am y *Rheolwr Gwasanaethau Stryd* yn bositif. Roedd unfrydedd barn gan unigolion o sefydliadau allanol a swyddogion mewnol yn y gwasanaeth yn datgan ei fod yn medru ymateb yn glir ac effeithiol ac yn frwdfrydig.

Cafwyd sylwadau cymysg am swyddogion yr Uned Economi ac Adfywio. Er bod enghreifftiau o gydweithio da, roedd peth pryderon ynglŷn ag eglurder eu rôl a'u perthynas gyda budd ddeiliaid ar adegau.

Draft

Ystyriwyd bod yr elfen yma tu allan i brîff yr Ymchwiliad yma. Awgrymwn y byddai'n fuddiol i wyntyllu'r mater yma'n fwy manwl i weld beth sy'n cyfrannu at gydweithio da. Ym marn aelodau'r Ymchwiliad, byddai'n werth gwneud gwaith pellach i asesu:

- Eglurder pwrpas – mae'n ymddangos bod yr elfen 'datblygu economaidd' wedi'i gyflwyno heb fedru ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol. Roedd yr elfen 'amgylcheddol' ar y llaw arall wedi bod yn datblygu dros gyfnod hirach ac yn fwy aeddfed i fedru gweithredu'n effeithiol.

- Gweithio'n rhagweithiol - tuedd i'r gwaith 'datblygu economaidd' i ddefnyddio dulliau traddodiadol fel e-byst a cheisio trefnu cyfarfodydd ffurfiol a chynhadledd. Tyfodd yr elfen 'amgylcheddol' yn llai ffurfiol dros amser gan ganolbwyntio ar gydlynu rhwng unigolion ac adeiladu ar gryfderau cynhenid er mwyn cyflawni gweithgareddau.

Gwnaed nifer o sylwadau am bryderon ynglŷn â datblygiadau llety anaddas amlddeiliadaeth ar draws y ddinas a oedd yn creu problemau glendid difrifol ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Nid yw'n glir a rannwyd hyn gyda'r Adran Rheoleiddio. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod hyn wedi cael sylw priodol. Eto, mae Adroddiad Williams yn nodi'r angen i gydlynu ymgysylltu o'r math yma'n fwy effeithiol. Deellir bod Tîm Prosiect Bangor sy'n cael ei gydlynu gan yr Adran Rheoleiddio yn rhoi peth sylw i'r materion yma. Eto, awgrymir y byddai'n werth gweld beth aeth o le yn fan hyn a sut y gellir gwella'r ymgysylltu.

Cynhaliwyd Cynhadledd gyda chynrychiolwyr ysgolion i drafod syniadau a chynlluniau. Nid yw'n glir beth oedd mewnbwn yr Adran Addysg i hyn os o gwbl. Yn ogystal, nid oes tystiolaeth i ddangos sut mae gwaith amgylcheddol y cwricwlwm yn cydblethu gyda gwaith amgylcheddol ym Mangor.

Yn yr un modd cyfeiriodd y Pen Swyddog Adfywio Cymunedol mai rôl y Rheolwr Cefnogi Busnes oedd cefnogi busnesau preifat. Eto, nid oedd yn ymddangos i ni bod y swyddogion yma'n cydblethu eu gwaith mewn modd cydlynus.

Mae'n arwyddocaol bod cyfarfod llawn o Gyngor Gwynedd ar 5 Rhagfyr 2013 wedi penderfynu dileu'r cynnig cyflawni : Cynnal peilot balchder cymunedol mewn ardaloedd er mwyn dysgu beth sydd yn gweithio allan o Gynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2013-17.[12]

Y rheswm sy'n cael ei nodi am hyn yw am fod pwyslais y prosiect bellach ar ganfod dulliau o leihau galw a dibyniaeth y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor drwy hyrwyddo gweithgareddau cymunedol yn hytrach na'r elfen amgylcheddol o'r peilot balchder cymunedol. Mae hyn yn cael ei gyfarch yn y flaenoriaeth CC3 – Hybu Cymunedau Gwledig

Mae hyn yn gyfle i gydlynu'r gwaith yn well rhwng holl wasanaethau'r Cyngor a'r cymunedau.

[12] Adroddiad yn nghyfarfod 5/12/13 o'r Cyngor - Eitem 10, Rhan 2

## Effaith Bositif

**10.1 Mae Balchder Bangor wedi cael effaith bositif ar bobl sy’n byw, gweithio ac astudio ym Mangor ac ar ymwelwyr â’r Ddinas.**

10.2 Mae aelodau’r Ymchwiliad yn bendant o’r farn bod gwaith y Bartneriaeth wedi cyfrannu tuag at wella’r amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth y rhai a gymerodd rhan am faterion amgylcheddol.

10.3 Mae’r Arolwg o’r cyhoedd a gynhaliwyd yn y Stryd Fawr ym Mangor yn ategu hyn gan ddangos bod canfyddiad clir gan y rhai a holwyd bod gwelliant sylweddol wedi digwydd ym Mangor yn ystod y tair blynedd ddiwethaf o safbwynt amgylchedd taclus, diogel, dengar a diddorol.

10.4 Mae aelodau’r Ymchwiliad o’r farn nad ydi cynnal proffil uchel i Balchder Bangor yn fater arwyddocaol. Effaith y gwaith sy’n cyfrif nid delwedd neu hunaniaeth y Bartneriaeth.

10.5 Mae Balchder Bangor wedi llwyddo i hybu cydweithio rhwng unigolion, asiantaethau cyhoeddus, preifat a grwpiau yn y gymuned. Mae wedi paratoi’r ffordd ar gyfer cyfnod newydd o gydweithio ym Mangor.

10.6 Nid ydyw cynnal strwythur o gyfarfodydd ac is-grwpiau i gyfarfod yn rheolaidd dan faner Balchder Bangor yn gynaliadwy.

Draft

# CH ARGYMHELLION

## Argymhellion Penodol i Ardal Bangor

### 11.1 Gweithio'n Rhagweithiol

Mae Balchder Bangor wedi bod yn ymarferiad llwyddiannus o gydweithio rhwng Cyngor Dinas Bangor, Cyngor Gwynedd, asiantaethau cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol o safbwynt cyflawni nod gwreiddiol y Bartneriaeth i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.

Mae angen adeiladu ar y gwaith rhagweithiol ac anffurfiol sydd wedi cychwyn gan *Swyddog Prosiectau Cyffredinol Cyngor y Ddinas* gyda busnesau lleol.

**Mae cyfle nawr i *Gyngor Dinas Bangor* adeiladu ar y gwaith yma drwy roi arweiniad ar y ffordd ymlaen a gweithio'n fwy rhagweithiol ac anffurfiol gyda grwpiau a gwirfoddolwyr**.

### 11.2 Cynllunio

**Mae angen i *Adran Rheoleiddio'r Cyngor* roi sylw manwl ar fyrder i ganfyddiad a phryderon yn ymwneud â datblygiadau llety amlddeiliadaeth anaddas mewn nifer o leoliadau ar draws y Ddinas.**

### 11.3 Cymuned

**Mae angen i swyddogion yr *Adran Economi ac Adfywio* adeiladu ar y gwaith rhagweithiol effeithiol a wnaed gan *Reolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd* a *Chydlynydd Balchder Bangor* i gefnogi'r cymunedau a'r grwpiau o ddiddordeb drwy weithio'n fwy anffurfiol gyda nhw.**

Draft

# Argymhellion i bob ran o Wynedd

## 11.4 Cydweithio'n Effeithiol

Rydym yn canmol y gwaith a wnaed gan swyddogion yr *Uned Gwasanaethau Stryd* ac yn arbennig y *Rheolwr Gwasanaethau Stryd* ond nid oes adnoddau digonol ar gael gan *Gyngor Gwynedd* i roi yr un fath o gefnogaeth i bob cymuned ag a wnaed ym Mangor ar gyfer y cynllun peilot.

Mae arddull yr Uned a'r Rheolwr o gydweithio yn enghraifft clodwiw o gydweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyhoeddus, cyngor lleol a grwpiau gwirfoddol.

**Argymhellir bod yr *Uned Gwasanaethau Stryd* yn ehangu'r arddull yma o gydweithio gyda phartneriaid yn lleol ar draws y Sir fel bod adnoddau'n caniatáu.**

## 11.5 Arweiniad Lleol

Yn *Adroddiad Williams*, rhoddir cryn bwyslais ar yr angen i hybu cyfrifoldeb yn lleol gan gynghorau tref a chymuned. Nid ydyw'r awydd gan bob cymuned i gydweithio, felly, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cyfeirio ei adnoddau prin i'r mannau pwrpasol.

**Argymhellir bod y Cyngor yn annog yr ardaloedd eu hunain i gymryd y blaen ac yna'n dethol yn ofalus cyn defnyddio adnoddau prin i gydweithio mewn ardaloedd lleol.**

## 11.6 Cyswllt Lleol

Mae angen ystyried yn ofalus sut orau i ddefnyddio adnoddau i gydlynu gwaith partneriaethol. Ni ddylid defnyddio adnoddau prin i gynnal cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd. Mae angen gweithredu mewn modd amgen drwy ddulliau electronig ac ehangu'r arfer da o gydweithio drwy gynnal deialog glir a chyfarfodydd anffurfiol.

**Mae angen hybu Cynghorau Cymuned (neu grŵp o gynghorau cymuned) i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhannu gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Gwynedd yn lleol.**

## 11.7 Ysgolion

**Argymhellir bod y *Gwasanaeth Addysg* yn gweithio gyda'r *Uned Gwasanaethau Stryd* i adnabod enghreifftiau o arfer da ymysg yr ysgolion sy'n hyrwyddo balchder dinesig gan roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith.**

## 11.8 Gwella Gwasanaethau

Mae'r ymchwiliad yma'n dangos bod modd gweithio mewn ffordd rhagweithiol gyda chymunedau lleol i gyflawni canlyniadau gwell i'r Dinesydd gan roi pwyslais ar le bod awydd yn dod o'r gymuned.

**Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu yn annog aelodau'r Cabinet i gydweithio'n gyson gyda chymunedau ar draws y Sir er mwyn cynnal ansawdd a gwella gwasanaethau mewn cyfnod heriol.**

Drafft

# CYDNABYDDIAETH:

Mae’r Pwyllgor Craffu yn dymuno diolch i’r canlynol wnaeth roi tystiolaeth werthfawr i’r ymchwiliad craffu hwn:

Y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Amgylchedd)
Steffan Jones (Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu)
Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)
Y Cynghorydd Mair Rowlands, (Cyn Gadeirydd Grŵp Prifysgol Balchder Bangor)
Y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Amanda Davies, (Pen-swyddog Adfywio Cymunedol)
Mr Neil Foden (Pennaeth Ysgol Friars) a Mr Aaron Evans, (Athro)
Meryl Jane Wyn – Jones, (Cadeirydd presennol Grŵp Prifysgol Balchder Bangor)
Cynghorydd Elin Walker Jones, (Ward Glyder ym Mangor)
Gwyn Hughes BA (Hons), MRTPI, (Clerc Dinas Bangor)
John Clive Price, Swyddog Gorfodaeth Gwastraff a Strydoedd Arfon, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus Dros Do, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Meirion Williams a Terry Edwards, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gyfrifol am Gangiau Cymunedol
Kate Jones, Rheolwr Canolfan Deiniol
Keith Williams, Swyddog Gorfodaeth Stryd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Catherine Roberts, Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, Adran Strategol a Gwella
Amanda Davies, Pen Swyddog Adfywio Cymunedol, Adran Economi a Chymuned
Paul Hockaday, Swyddog Prosiect, Adran Economi a Chymuned
Dylan Jones, Arweinydd Tîm Glanhau Strydoedd Bangor/Bethesda, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Anthony Randles, Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Ysgol Glancegin, Bangor
Siân Griffiths, Rheolwr Cefnogi Newid; Siôn Gwynfryn Williams, Rheolwr Cyfathrebu; Jennifer Rao, Cydlynydd Panel Trigolion am eu help gyda pharatoi cwestiynau ar gyfer holi ar y stryd.
Uned Ymchwil, Adran Strategol a Gwella, Cyngor Gwynedd.

Diolch hefyd i:
Swyddogion Cadw Cymru’n Daclus, Swyddfa’r Harbwr, Caernarfon am eu help gyda holi ar y stryd. http://www.keepwalestidy.org/favicon.ico
Anna Bullus Founder of Gumdrop Ltd ac Alice Ball, Studio 201, Westbourne Studios, 242 Acklam Road, London W10 5JJ.Contact | Gumdrop

Draft

## Darllen Pellach

Gwefan Bresennol Balchder Bangor

Balchder Bangor ar:

Facebook

Twitter

Flickr Plaid Cymru

dudalennau Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor
dudalennau Ysgol Gwyddorau Biolegol Prifysgol Bangor

dudalennau Blanket Communications

dudalennau Southamptonwired.co.uk

Dudalennau Newyddion Cyngor Gwynedd:

Ionawr 2012
Awst 2013
Rhagfyr 2013

Cymdeithas Ddinesig Bangor

Drafft

## Am Wybodaeth Bellach, Cysylltwch a:

**Gareth James**
**Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu**
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jel,
Caernarfon,
LL55 1SH
Ffôn (01286) 679 261
Ebost: GarethJames@gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 MAWRTH 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMCHWILIAD CRAFFU – CLUDIANT ADDYSG ÔL-16** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD SIAN GWENLLIAN** |
| **AWDUR** | **DEBBIE A W JONES**<br>**(RHEOLWR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1. Mae'r maes cludiant addysg ôl-16 wedi bod yn destun pryder i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ers peth amser.

2. Yn y Cyfarfod Paratoi a gynhaliwyd ar 12 Medi 2013, cytunwyd i gynnal Ymchwiliad i'r maes cludiant addysg ôl-16, a hynny yn dilyn cwblhau'r gwaith ar yr Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor.

3. Yn y Cyfarfod Paratoi ar 12 Medi 2013, ac yn ddiweddarach yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 12 Hydref 2013, cafwyd trafodaeth ar fwriad yr Ymchwiliad a chyflwynwyd sgôp yr Ymchwiliad fel drafft gerbron yr aelodau.

4. Ar yr un pryd, etholwyd yr aelodau canlynol i wasanaethu ar yr Ymchwiliad, sef y Cynghorwyr:
   - Stephen Churchman
   - Craig ab Iago
   - Caerwyn Roberts
   - Angela Russell
   - Gethin Glyn Williams
   - Gruffydd Williams

5. Er hynny, derbyniwyd gohebiaeth diweddar gan y Cynghorydd Craig ab Iago yn hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd na fyddai modd iddo ymrwymo amser i wasanaethu ar yr Ymchwiliad hwn oherwydd ei fod yn dilyn cwrs MA. O ganlyniad, bydd angen i'r pwyllgor enwebu aelod arall i wasanaethu ar yr Ymchwiliad, ac yn unol â'r drafodaeth wreiddiol bydd angen ystyried y posibilrwydd o ethol aelod o Arfon er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys..

6. Nawr, cyflwynir y drafft diweddaraf o'r briff ar gyfer yr Ymchwiliad ynghlwm er sylw'r pwyllgor. Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y drafft, ac i gynnig sylwadau arno cyn ei fabwysiadu.

7. Cynhelir cyfarfod cyntaf yr Ymchwiliad am 10 o'r gloch, 13 Mawrth 2014 yn Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth.

Atodiad 1

**Ymchwiliad Craffu – Cludiant Addysg Ôl-16**

**Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu**

Sefydlir yr Ymchwiliad Craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach
- Effaith gweithredu'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar ddarparwyr addysg ôl-16, dysgwyr a'u teuluoedd

Yn benodol, bydd yr Ymchwiliad yn:-

1. manylu ar weithrediad ac effaith Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach, dysgwyr a'u teuluoedd yng Ngwynedd.
2. Sefydlu dealltwriaeth o effaith unrhyw newid i'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 i'r Awdurdod, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, dysgwyr a darpar ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

**Trefn y Gwaith**

Bydd yr Ymchwiliad yn ceisio darlun sirol o'r modd y caiff y Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ei weithredu, ac effaith y polisi hwnnw ar ddarparwyr addysg ôl-16 a dysgwyr, mewn gwahanol ardaloedd o'r sir:-

a) Sefydlu dealltwriaeth o:-

- arweiniad Llywodraeth Cymru ar gludiant addysg ôl-16
- bolisi cludiant addysg ôl-16 Gwynedd a chymhariaeth rhyngddo â pholisïau cyffelyb mewn siroedd eraill yng Nghymru
- effaith gweithredu'r polisi ar ddysgwyr ymhob rhan o'r sir
- gysondeb y polisi cludiant addysg ôl-16 i ddysgwyr ymhob rhan o'r sir
- hygyrchedd y ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr yn ystod oriau craidd a thu hwnt i oriau craidd
- fforddiadwyedd y polisi cludiant i ddysgwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r sir
- effaith unrhyw newid i'r polisi cludiant addysg ôl-16
- effaith negodi unrhyw gytundebau gyda darparwyr cludiant addysg ôl-16

b) Cyfweld y canlynol i adnabod y sefyllfa ar lawr gwlad:-

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd (1 Arfon, 1 Dwyfor, 1 Meirionnydd)

- Penaethiaid Gwasanaethau Myfyrwyr (Coleg Meirion Dwyfor safle Pwllheli a Dolgellau, Coleg Menai)
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda dysgwyr ôl-16 mewn ysgol uwchradd a choleg addysg bellach i drafod eu defnydd o gludiant addysg ôl-16
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda darpar ddysgwyr ôl-16 mewn ysgol uwchradd a choleg addysg bellach i drafod effaith tebygol trefniadau cyfredol cludiant addysg ôl-16 arnynt
- Cynnal Grŵp Ffocws gyda rhieni dysgwyr ôl-16 mewn 2 ardal er mwyn deall effaith gweithredu'r polisi cludiant ôl-16 ar deuluoedd.

c) Llunio argymhellion er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet ar gyfer gwella cysondeb, hygyrchedd a fforddiadwyedd cludiant ôl-16 i ddysgwyr ledled y sir.

**Rhaglen Waith Pwyllgor Craffu Cymunedau Medi 2013 – Awst 2014**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cludiant ôl 16** | **Sgóp ar gyfer ymchwiliad craffu 'Cludiant ól -16' wedi ei gyflwyno** |
| 2. | **Rheoli carafanau sy'n parcio ar diroedd y Cyngor a mannau eraill heb ganiatad** | **Materion a ellid eu craffu wedi cael ystyriaeth a chamau'n cael eu cymryd i gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor gyda'r bwriad o ystyried y mater ymhellach maes o law.** |
| 3. | **Effaith polisiau cynllunio ar hyfywedd cymunedau** | **Angen edrych ar effaith polisiau cynllunio ar hyfywedd ein cymunedau a'r rhwystrau i bobl ifanc gael caniatad cynllunio. Rhoi sylw penodol i amodau sy'n gysylltiedig â Chytundeb 106. Rhoddwyd ystyriaeth i ail gartrefi, ond deallir fod y mater hwn yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| 4. | **Ffioedd Parcio** | **Aelod Cabinet –yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ac i ateb rhestr o gwestiynau a ddarparwyd.** |
| 5. | **Cynllun Prentisiaeth** | |
| 6. | Trefniadau monitor a gorfodaeth meysydd carafanau | Ystyried effeithiolrwydd yr Adran Rheoleiddio o safbwynt monitro os ydy pobl yn byw mewn meysydd carafanau neu a ydynt ar eu gwyliau. |
| 7. | Denu a chadw busnesau yn y Sir | Pa mor effeithiol yw'r Cyngor yn denu a chadw busnesau yn y Sir. |
| 8. | Gwella stoc tai un llofft | Mae'r drefn budd-daliadau yn cosbi pobl gyda llofftydd sbâr. Mae angen annog cymdeithasau tai i adeiladu stoc o dai un llofft. |
| 9. | Hafan Pwllheli | Ystyried cyflwyno rheolaeth yn ól i gwmni preifat. |
| 10 | Defnydd o lwybrau beicio a | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybrau cerdded | |
| 11. | Parc Glynllifon a Pharc Padarn | |
| 12. | Twristiaeth | Ystyried effaith y diwydiant twristiaeth ar yr economi yng Ngwynedd |
| 13. | Digartrefedd – Hostel Noddfa, Deiniolen | Sgóp ar gyfer ymchwiliad craffu wedi ei gyflwyno |